



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

### **Usage guidelines**

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

### **About Google Book Search**

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>



1872

A DRODDIADUR

HARDDONOL

WAHANDL DESTYMAI











BUGAIL IEUANG BETHLEHEM.



YR ADRODDIADUR BARDDONOL

AR

WAHANOL DESTYNAU.

GAN

R. PARRY (GWAITHYR)




LLUNDAIN:

CYMDEITHAS Y TRAETHODAU CREFYDDOL.

1877.

147. 2. 666.







## ANERCHIAD.

Y MAE yn afreidiol arfer rhesymau i brofi yr hyn a addefir gan bawb. Gwyr y cyhoedd yn barod, fod y Cymry yn bobl o chwaeth farddonol a cherddgar, er y cynfyd. Ni bu mwy o gyfansoddi mewn Emynau, Caniadau, a Phryddestau, heb son am Awdlau, ac Englynion, erioed, yn yr iaith, nag sydd yn y dyddiau hyn. Y mae yr adroddiadau o honynt, mewn darllen o lyfr, a thraddodi o'r cof, yn amlach nag y bu er ys oesau lawer. Y mae cynaliad yr Eisteddfodau, a ffurfiad y Cyfarfodydd Llenyddol a'r cynullïadau adlonol, yn gefnogaeth effeithiol iddynt, drwy bob parth o'r Dywysogaeth, a nifer mawr o drefi Lloegr, yn gystal a'r Amerig, a manau eraill

Y mae lluwys o gyfrolau, o wahanol faintioli, wedi eu cyhoeddi yn barod, o bryd i bryd. Y mae yr arferiad mynych o honynt, yn galw am amrywiaeth mawr, er boddhau pob chwaeth ; a bernir fod

angen am gynyrchion newydd, yn mhob dosparth o awenyddiaeth, yn enwedig i gyfarfod dymuniad y genhedlaeth sydd yn codi. Barnai Pwyllgor Cymdeithas y Traethodau Crefyddol, fod yn ein gwlad wagle, ag eisiau ei lanw, yn y cyfeiriad hwn, ac ymofynent am ddefnyddiau o duedd ymarferol, o ansawdd ddilwgr, wedi eu hysgrifenu mewn arddull poblogaidd, ac yn cynwys amrywiaeth boddhaol, ar wahanol destynau. Wedi deall fod cynhwysiad y Llyfryn hwn, o'r cyfryw gymeriad, teimlasant yn anogaethol i'w ddwyn ger bron y cyhoedd. Pa mor belled y llwyddwyd i gyfarfod a'r dymuniad uchod, nid oes weithian ond gadael y gwaith i sylw y darllenwyr. Ni honir fod y syniadau sydd ynddo oll yn wreiddiol, ond addefir i ryddid gael ei gymeryd gydag ambell ddernyn, pan y gellid eu gwisgo â delw wreiddiol ac â gwedd newydd. Y dymuniad yw ar i'r Llyfryn ateb i'w enw, a throi allan yn adeiladaeth ac adloniant i'r cyhoedd.

R. P.



## CYNWYSIAD.

	TU DAL
BRAWDLYS CALFARIA ... ..	9
TRI RHYPEDDOD YN Y NEF ... ..	11
CAN MIRIAM ... ..	12
DYGHWELIAD Y GAETHGLUD ... ..	13
DYCHYMYG ... ..	13
CLORIANAU CYFLAWNDER ... ..	14
TWR BABEL, NEU GYMYSGIAD YR IETHOEDD ... ..	15
Y GAUAF ... ..	17
Y BYWYD-FAD ... ..	18
AMSER ... ..	19
IORWERTH IAF YN NGHASTELL CYNWY ... ..	20
Y TEULU AR YR AELWYD ... ..	22
Y TYMHORAU ... ..	24
ARWYDDION GWLAW ... ..	25
GALLUOEDD ANGEL ... ..	28
GWLADGARWCH ... ..	28
YR AWR-WYDE ... ..	30
YSTYRIAETH AR OES DYN ... ..	30
CENFIGEN ... ..	31
CYFIRITHIAD O'R "KIND MINSTREL" ... ..	33
YN IACH I ARFON ... ..	34
Y SESIWN WAG ... ..	36
CI Y PYSGOTWR ... ..	38
CERDD EISTEDDFOD ... ..	40
DALLINEB CORPHOROL ... ..	41
"GWELL YW DAU NAG UN" ... ..	41
TRI CHEDYRN CYMRU ... ..	42
ANFAEWOLDEB ... ..	43
BRADWRIAETH JUDAS ... ..	44
CYNHAUAF EFENGYL ... ..	46

	TU DAL
DAFYDD A GOLIAH ... ..	49
JESSE A DAFYDD ... ..	51
DAFYDD A JESSE ... ..	56
GOLYGFA YN Y GWERSYLL ... ..	59
DYFODIAD DAFYDD ... ..	61
SAUL... ..	67
PAROTOI AT YE YMLADDEFA ... ..	73
GOLIAH YN NESAU, YN EI GYFLAWN ARFOGAETH ...	77
DAFYDD O'R NEILL-DU ... ..	81
DAFYDD YN DWYN PEN GOLIAH ... ..	87
DAMEGION AC AMEYWIAETH ... ..	91
Y WADD A'R EHEDYDD ... ..	93
YE YSGUTHAN A'R BIOGEN ... ..	94
Y CEILIOG-RHEDYN A'R MORGRUGYN ... ..	94
Y GOF WEDI CAEL ENW DA ... ..	95
Y FRON-RHUDDAN A'R FRONFARITH ... ..	96
YE HEN WRAIG A'R EDAFEDD ... ..	97
ANGAU A'R DYN ANMHAROD ... ..	99
Y PRYF-COPYN A'R GWIBEDYN ... ..	101
Y LLWYNOG A'R CEILIOG COEDIAR ... ..	104
ERFYNIAD YE ADAR TO ... ..	106
"AC Y'M CAIR YNDDO EF" ... ..	108
"WELE, YE WYF YN SEFYLL WETH Y DEWS, AC YN CURÖ" ... ..	112
YE YSGRYTHYR ... ..	115
DYGIAD CRISTIONOGAETH I BRYDAIN ... ..	119
Y CENHADON CYNTEFIG, A DIWEDDAR ... ..	121
Y BIBL GYMDEITHAS... ..	122
Y JUBILI ... ..	124
CYD-DREMIAD A'R ANGEL YN LLYFR DATGUDDIAD ...	126

## CANIADAU, DAMEGION, A DIARHEBION.



### BRAWDLYS CALFARIA;

O Psalm. lxxxv.

**A**R goppa Calfaria cyfarfu  
Y priodoliaethau yn nghyd,  
A bywyd pechadur i'w farnu,  
Oedd testun y ddadl i gyd;  
GWIRIONEDD eisteddai 'n gadeiriwr,  
Darllenai 'r cyhuddiad yn llawn;  
Un gobaith nid oedd i'r troseddwr,  
Ond angau tragwyddol, heb Iawn.

CYFIAWNDER ddechrenai ei araith,  
A'i lygaid yn fflamio gan dân,  
Esboniai lythyren y gyfraith  
Sy'n gofyn yr enaid yn lan;  
Troseddwr yw dyn sydd yn haeddu  
Ei dafu i'w lethu dan lid,  
I'r carchar, heb byth ei waredu  
Nes talu y ddyled i gyd!

SANCTEIDDRWYDD a godai i fynu,  
Darluniai ei bechod mor gas,  
Nes ydoedd y nef yn cymylu,  
Heb obaith gweinyddiad o ras

Perffeithrwydd y ddeddf oedd yn ffiamio  
 Euogrwydd yn mynwes y dyn,  
 Swyddogion o'i amgylch i'w rwymo,  
 Yn dyfod yn barod, bob un.

Yn awr, dyna'r swyddwr yn galw,  
 Yr un cyhuddiedig o draw,  
 "Garcharor, sâf, ateb i'th enw,  
 'A chyfod i fynu dy law,  
 "A dywed yn eglur, Ai euog,  
 "Ai dieuog, ydwyf yn awr?"  
 Atebai'n grynedig, "*Mai Euog*,"—  
 Bron syrthio mewn llewyg i'r llawr!

Yn awr, dacw hithau TRUGAREDD,  
 A'i dagrau yn gwlychu ei grudd,  
 Yn eiriol am weini ymgeledd,  
 A chael y carcharor yn rhydd;  
 Gofynai yn wyneb y Barnydd,  
 Os na cha'i hi wella ei glwy',  
 Ei chladdu dan gadair y Llywydd,  
 Na sonid am dani byth mwy!

Ar hyn, dyma'r llys yn adseinio,  
 Gan udgorn rhyw Angel o'r ne,  
 Yn dweud y do'i un i egluro,  
 Y ffordd i gael pobpeth i'w le;  
 Rhoid gosteg i wrando ffraethineb  
 Rhesymau areithiwr mor fawr,  
 Gan ddisgwyl wrth enau DOETHINEB,  
 Am drefn iachawdwriaeth yn awr;

"Gwirionedd bob gair yw'r cyhuddiad,  
 "Ni haeddai'r troseddwr gael byw,  
 "Dirmygodd a'i euog ymddygiad,  
 "Anrhydedd llywodraeth ei' Dduw;"

Er hyn, meddai CARIAD y Duwdod,  
 A'i fynwes am achub y dyn,  
 Daw IESU, drwy uno â dyndod,  
 I farw 'n ei natur ei hun!

Cytunai'r holl lys a'r amodau,  
 Adseinid a'r udgyrn yn awr,  
 Gyhoeddiad trwy'r eang wybrenau,  
 Fod HEDDWCH rhwng nefoedd a llawr;  
 Cyfiawnder ro'i weithred Maddeuant,  
 I ddwyllaw Trugaredd yn rhodd,  
 A boddai'r dadleuon mewn moliant,  
 Wrth achub pechadur o'u bodd!

---

TRI RHYFEDDOD YN Y NEF.

WEDI cyrhaedd i Gaersalem,  
 Yn ddiangol drwy y daith,  
 Ymneillduais gam o'r dyrfa  
 I rifo'r rhyfeddodau maith,  
 Ac yn nghanol yr olygfa,  
 Welwn yn addurno'r lle,  
 Dwyn fy mryd yn llwyr wna'i canfod  
 Tri rhyfeddod mawr y ne'.

Y rhyfeddod *cyntaf* welwn,  
 Gweled myrdd yn berffaith lân.  
 Yno'n gwisgo eu coronau,  
 Ac yn blaenu yn y gân,  
 Na ddisgwyliais unwaith weled,  
 O'u cyffelyb yno'r un ;  
 Rhaid fod effaith gras y bywyd,  
 Uwch dychymyg calon dyn.



Yna'r ail rhyfeddod pwysig,  
 Ddenai'm sylw at ei nod,  
 Gweled miloedd yno'n eisiau,  
 Nad amhenais hwy erioed ;  
 Chwilio ol a blaen am danynt,  
 Gorfod gwel'd eu bod ar ol,  
 Rhai a dybid gynt yn ddoethion,  
 Heddyw'n profi'u bywyd ffol.

Ond yn nghanol y myfyrdod,  
 Dyma'r trydydd yn ei rym,  
 Ar fy meddwl mor gynhyrfus,  
 Llyngcai'r lleill i fynu'n ddim ;  
 Gwel'd fy hunan wedi f'achub,  
 Mi fy hun, o bawb trwy'r byd,  
 Gwel'd y blaena' draw yn ola',  
 Minau'r ola'n gynta' i gyd !

---

CAN MIRIAM ;

O EXODUS xv.

YR Arglwydd yn rhyfelwr sydd,  
 Goruchel lywydd Sion ;  
 Yr Arglwydd yw ei enw ef,  
 I frenin nef mae'r goron.

Fe dafnai'r march i waelod mor,  
 Gorchfygai Ior y marchog,  
 Pan suddai Pharo, fel y plwm,  
 A'i luoedd llwm yn euog.

I enw'r Ion, derchafwn gân,  
 Ar dympan lan, a thelyn,  
 Mae Israel lon ar dir y byw,  
 Ond marwol ydyw'r gelyn ;

Can Moses, heb nac ofn na phoen,  
 A chan yr Oen a seiniwn,  
 Yn anthem daear lafar lef,  
 A chân y nef y nofiwn.

---

## DYGHWELIAD Y GAETHGLUD.

**W**ETH gychwyn heddyw tua n bro,  
 Fel rhai'n breuddwydio ydym,  
 Mae rhyddid o'r caethiwed blin  
 Fel cân a chwerthin genym.

Yr Argiwydd Dduw, pan oeddym gaeth,  
 A wnaeth i'n bethau mawrion,  
 Am hyny'r ydym oll yn rhydd,  
 Mewn mawr lawenydd calon.

Fe ddrylliai ef y barau pres,  
 A'r dorau'n rhes agorodd,  
 Er mwyn cael ffordd ar wastad lawr,  
 Yr afon fawr a sychodd.

Y mawl a fo i Ior y nef,  
 Gorchfygai ef y gelyn,  
 Cawn ninâu'n fuan ddyblu'r gan,  
 Yn Nghanaan gyda'r delyn!

---

## DYCHYMYG.

**B**ETH sydd mor ddigyfnewid a natur Ior ei hun,  
 Uwchlaw ei ddwyn i'w brofi, ger bron gorseddfainc dyn,  
 O ran ei werth a'i bwysau, mae fel coethedig AUR,  
 A doddwyd ac a burwyd yn ngwres y ffwrn a'r pair.

Mae'n debyg i'r GOLBUNI, o'r haul ar haner dydd,  
 Ni chydfydd â thywyllwch un cyfeiliornad sydd;

Mae fel y MOR diderfyn, yn ei gyflawnder mawr,  
Nad ellir byth ei blymio â llinyn hyd y llawr.

Mae fel yr AWEL deneu, sy'n anadl pobpeth byw,  
Prif elfen yn nghynaliaeth a chysur dynolryw;  
Mae'n para byth i'w wisgo, heb dreulio fel y DUR;  
Mor llyfn a'r DRYCH i ddangos, pob gwedd yn berffarth bur.

Mae fel yr ENFYs disglaer, na newid byth ei liw,  
Sy'n fwa nen gwmpasog; disaeth i'r cywir yw;  
Mae'n sefyll ar gadernid tragwyddol oes y GRAIG,  
Y sail sydd mor ofynol, i'r dwl a'r ysgolhaig.

Mae fel y DDERWEN gadarn, saif ar ei throed ei hun,  
Nid fel yr eiddew egwan, a bleth am dani'n nglyn,  
Mae fel y FODRŴY'N gyfan, sy'n aros byth yn gron,  
Heb ddechreu ac heb ddiwedd, 'does bwlech na tholec yn hon.

Mae'n ddelw Duw ei hunan, mae'n rhwymyn nef y nef,  
Mae'n werth i bawb ei brynu, heb byth ei werthu ef,  
Gofynodd barnwr unwaith, mewn cellwair, "Pa beth yw?  
Rhowch chwithau'n awr yr ateb, mewn gair, neu lun, neu liw

### CLORIANAU CYFIAWNDER.

CYFIAWNDER ofynai i ddyn,  
Pa faint yw dy bwysau di'n awr?  
Os ydwyt ti'n ddigon dy hun,  
Arbedaf—nis toraf di lawr.

I'r clorian ai'r dyn yn lled hyf,  
Ond buan esgynai i'r nen,  
Ysgafnach oedd yno na'r plyf,  
At godi'r fath bwysau uwch ben.

Ar hyny, do'i *Rhinwedd* ger bron,  
A rhes o weithredoedd o'i blaid,  
Ond er eu harddangos mor llon,  
Y fantol i'w erbyn a gaid.

*Trugaredd* ddoi'n mlaen, gyda hyn,  
 A defnyn o *Waed* yn ei llaw,  
 A gawsai ar Galfari-fryn,  
 Gan gyfarch yr orsedd o draw ;

A'r foment ei dodai o'i du,  
 Y gwyrarai y tafol hyd lawr,  
 Ar hyny, Cyfiawnder, o fry,  
 A waeddai, " Rwy'n foddlon yn awr !"

---

TWR BABEL,

NEU GYMYSGIAD YR IEITHOEDD

**A** R ddechreu Twr Babel, roedd pawb yr un iaith,  
 Pan unodd y lluaws i gychwyn y gwaith,  
 A gwneud iddynt enw a fynai pob dyn,  
 A grisiau i ddringo i'r nefoedd bob un.

Ond tra'r oedd y cyfan yn fawr eu hystwr  
 Yn codi'r esgynlawr ar uwchaf y Twr,  
 Ar unwaith tarawyd y gweithwyr i gyd,  
 A llewyg o syndod, aeth pawb fel yn fud.

Cymysgwyd yr ieithoedd ar dafod pob dyn  
 Troi pawb i lefaru a'u geiriau eu hun,  
 Er gwaeddi a phwyntio y naill at y llall,  
 Ni ddeallent eu gilydd, roedd pawb fel yn ddall.

Gwaeddai un ar gymydog, " Moes forthwyl o draw,  
 Ond hwnw'n ei ffwdan a gyrc'ai' y rhaw,  
 Un arall a waeddai, " Priddfeini ar frys,"  
 Ond y gwas at y polyn gyfeiriai ei fys.

Gwaeddai un mewn prysurdeb, "yr ysgol i mi,"  
 A'r llall iddo'n brysur gyn'hygiai y lli';  
 Roedd un yno'n gwaeddi yn hir am yr ordd,  
 A'r llall yn lle hyny'n ei thafu o'r ffordd.

Un arall fu'n gwaeddi yn hir am y rhaff,  
 Doedd neb allai'i ddeall, er gwrando'n bur graff,  
 Haerai un fod ei gyfaill yn siarad mewn gwawd,  
 Gofynai, mewn difrif, "Beth ddarfu'r hen frawd?"

Gwaeddai un mewn awdurdod, "*Now, mortar, be quick,*"

Ond y llange ddygai iddo ysglodyn neu bric,  
 Un arall a waeddai, "*Come reach me that saw,*"  
 Un arall ofynai, "Wna hoelen y tro?"

Gwaeddai un am y fwyall, nerth esgyrn ei ben  
 A'r gwas ddygai iddo hen foncyff o bren,  
 Gwaeddai un yn mron gwylltio, "*Come reach me that tool,*"

Un arall, "eglwra, beth fynni di'r ffwl."

Roedd un eisiau trywel, a'r llall eisiau pig,  
 Doedd neb allai'u deall, a hwythau'n bur ddig,  
 Estynai un iddynt y llinyn a'r plwm,  
 Un arall gynhygiai hen drosol go drwm.

Un waeddai o'r diwedd, "Dyw hyn ddim yn deg,  
 Ar hyn dyna forter yn disgyn i'w geg,"  
 A thra bu yn gwaeddi, bron tagu, "Prw hach,"  
 Dywedai ei gyfaill, "Wel dyna dy sach."

Fel hyn y byddarent eu gilydd bob awr,  
 Rhai'n codi i fynu, rhai'n tynnu i lawr,  
 Fel llawer "Twr Babel" sydd eto'n y byd,  
 Heb sail na defnyddiau, ond breuddwyd i gyd!

## Y GAUAF.

PWY daenai'r nefoedd megis llen,  
 A'r niwl ar ben y bannau,  
 Gan oerni'r awel bery rew,  
 A mil o dew gymylau,  
 Pwy ond yr Hwn, bob tymor wnaeth,  
 Mor helaeth eu rheolau?

Pwy gloes y dwr dan ddor mor den,  
 A'r gaenen rew er gynnau,  
 A chadw'r allwedd yn ei law,  
 Na red y gwlaw o'r ffrydiau?  
 Pwy ond yr Hwn sydd gadarn Ior,  
 All gau y mor a dorau?

Pwy wisgai'r llawr a mantell wen,  
 A'i dalen dros ei dyle,  
 A'r eira dros y borfa'n llen.  
 A barug ar ben bore?  
 Pwy ond yr hwn a groga sedd  
 Y gogledd ar y gwagle?

Mae'r adar mân gan oerni'r od,  
 Ar ddyfod oll yn ddoffion;  
 Mae Robin gyda chil y mur,  
 Yn brysur am y briwsion,  
 A'r anifeiliaid wrth y ty,  
 Yn llechu rhag y lluwchion.

Mae rhai mewn bwth gan brinder bwyd,  
 Ar aelwyd heb fawr olau,  
 A'r wrthban lom at fin y gwynt,  
 Am danynt yn bur denau,  
 A'r plant yn effro'n ngolau'r lloer,  
 Y noson oer mewn eisiau.

Os derfydd masnach a phob gwaith.  
 Ar unwaith a chyfranau,  
 Beth ddaw o'r tlawd, yn fuan red,  
 I'n dyled gyda'i deulu ;  
 Pwy ond yr Hwn sy'n porthi'r brain  
 A geidw'r rhain rhag rhyngu ?

Ni fu creadur gwyllt na dof,  
 Yn angof gan Ragluniaeth,  
 A'i gofal mawr, ni phalla un  
 Gwibedyn, o'i gwybodaeth,  
 Ac ni fu dyn, er maint ei fai,  
 Na welai ei gynaliaeth.

Cyrhaedda'u gweddi lys y ne'  
 A'u lle a dry yn llawen,  
 O'i law haelionus, gyr eu Tad  
 Ar rediad neu ar aden,  
 Eu tamaid bwyd cyn delo'r hwyr,  
 Eu hing a wyr, a'u hangen.

Hwy gofiant fel y deuai Un,  
 I'w wlad ei hun i dlodi,  
 All gydymdeimlo yn mhob man,  
 A'r gwan a'i ddirfawr gyni,  
 Ac anfon drwy ei air ar led,  
 Ymwared rhag camwri!

---

Y BYWYD-FAD.

**M**AE'R Llong yn y storom yn nghanol y lli,  
 Ac ofn ar bob calon mai suddo wna hi,  
 Mae'r dwylo yn codi pob arwydd i'r lan,  
 I alw am gymorth ar fynud i'r fan.

Mae'r gwynt yn ffyrnigo, nes lluchio 'r holl aig,  
 A hwythau yn nesu bob mynud i'r graig,  
 Fe ddrylliodd y tonnau y byrddau a'r bollt,  
 Dan ergyd y fellten ai'r hwylbren yn hollt.

Mae angau yn tremio yn wyneb pob dyn,  
 A phawb yn ddiallu i'w helpu ei hun,  
 Os na ddaw ymwardd yn fuan o'r lan,  
 Ymollwng i foddi, er gwaeddi, wna'r gwan.

Dowch forwyr anturiwch, ac unwch fel côr,  
 Dowch gyrwch GWCH-BYWYD, mewn mynud i'r  
 mor,

A thynwch a'r rhwyfau eich gorau i gyd,  
 Achubwch drueiniaid o'u perygl mewn pryd.

Ha! dacw'r Bad cyflym yn dawnsio i'r don  
 Gan redeg gan sionced a'r ewig o'r bron,  
 Cyrhaeddodd y Llestr yn barod, yn wir,  
 Daw'r oll o safn angau, a'r tonnau i'r tir.

Mor llawen mae'r dyrfa ar ymyl y traeth,  
 Yn canmol yr orchest, a'r morwyr a'i gwnaeth,  
 A'r teulu gwarddol yn moli yr Ior,  
 Achubodd eu bywyd o aelgerth y mor!

---

#### AMSER.

O! AMSER, didrugaredd,  
 Ni 'rosi wrthyf fi,  
 Er maint a fo fy nhrafferth,  
 Yn mlaen y rhedi di;  
 Fe erys môr funydyn,  
 Ar lanw ac ar drai,  
 Ond ti, nid oedi foment,  
 I wneud fy mrys ddim llai,



R BARDDONOL

a'r lleuad,  
eu hol,  
Israel,  
ffol,  
l,  
l awr,  
fy einioes,  
mawr.  
v pobpeth,  
au llym,  
a,  
lim,  
di,  
ydd dy hun,  
au,  
lyn.  
hineb,  
bob pryd,  
adeg,  
u'i gyd ;  
rofiad,  
ddaw,  
wch,  
in braw'.

GHASTELL CYNWY;

dolig, 1282.

, chwe canrif maith yn ol,  
gwelid gloddest ffol,  
rhai mewn awydd gaed,  
n wasarn dan eu traed.

Gwahoddent bob pendefig o filwr yma i lawr,  
I wledd y noswaith lawen, wneid mewn rhialtwch  
mawr,

Ar ol y seigiau breision, llifeiriai'r gwin a'r bir,  
Nes codent drwy'r gyfeddach i orfoleddu'n hir.

Er chwyddo y llawenydd, fe gurid wrth y ddor,  
Gan ryw negesydd dieithr, ar risiau porth y mor,  
Nol gofyn am ei enw, atebai hwnw'n rhwydd,  
"Myfi yw Adam Francton, canwriad wrth fy swydd.

"Mae'm neges at y brenin, ag anrheg werthfawr ddrudd,  
Bydd dda gan ei Fawrhydi, ei gwel'd ar hyn o bryd,  
Mi ddois o Aberedwy, ger Llanfair-muallt draw,  
Trwy blygion rhew ac eira, trwy stormydd gwynt a  
gwlaw.

Ac ar ol agor iddo, a'i ddwyn i'r cyntedd mawr,  
Wrth dalu moes-gyfarehiad, ymgrymai hyd y llawr,  
Agorai'r sypyn pwysig, cyfodai ar ei draed,  
A'r lliain claerwyn welid yn goch o staen â gwaed.

A pheth oedd ei gynhwysiad, ond pen ein Llywydd ni,  
Pen hardd Llewelyn olaf, fu dan goronog fri ;  
Ar hyn, balchiai Iorwerth, crechwenai yr holl lys,  
Ac am y dawns a'r bibell, y gelwid gyda brys.

Ac meddai'r teyrn chwyddedig, "cyrhaeddais hedd-  
yw'm nod,  
Rwy'n awr yn berffaith foddlon, a'm gelyn dan fy  
nhroed,  
Rhaid cludo'r pen cwypiedig, mewn un orymdaith  
fawr,  
Ar hyd heolydd Llundain, er gwarth i'r ynyfyd gawr.

Ac wedi dodi'r penglog ar binael y Twr Gwyn,  
 Fel arwydd buddygoliaeth, bydd oesol gof am hyn ;  
 Mae Cymru wedi cwmpo, yn aberth heddyw i ni,  
 Fe gollodd y Dywysogaeth ei holl henafol fri.

Ond gyda hyny, Madog, a'i fyddin ddewr a gaed,  
 O amgylch yr hen gastell, am ddial gwaed ei dad,  
 Fe dyngai mewn cynddaredd, ar fin ei gleddyf noeth,  
 Y rhostiai galon Iorwerth, ryw bryd ar badell boeth.

Ond cymaint allai yntau, oedd gwarchae ar y llu,  
 Nes dwyn y pendefigion i ymyl newyn du,  
 Pan ar y foment olaf, drwy nerth y bwa saeth,  
 Iarll Warwick ddoi'n waredwr i'w dwyn o'r cyflwr  
 caeth !

---

## Y TEULU AR YR AELWYD,

Ton y Melinydd.

**F**E welwyd nos Nadolig,  
 Berth'nasan'n dod yn nghyd,  
 O lawer annedd unig,  
 A rhai o bellder byd ;  
 A'r teulu mân, o gylch y tan,  
 Ar aelwyd lân yn seinio cân,  
 Ar aelwyd lan yn seinio cân.

Do'i Hywel o Rydychain,  
 Y gwyliau'i' wel'd ei fam,  
 A Rhys o ddinas Llundain,  
 I dy ei dad bob cam ;  
 Ar teulu man, o gylch y tan, &c.

Do'i Gwen ar ben y cerbyd,  
O dan yr eira mawr,  
Ag Elen, er mor enbyd,  
Y rhew oedd dros y llawr ;  
A'r teulu mân, &c.

Y tylwyth er y bore,  
Hiraethent yn ddi ball,  
Ar aelwyd eu hen gartref,  
Am wel'd y naill y llall ;  
A'r teulu man, &c.

A'r hwyr y doi'r llawenydd,  
Na bu ei fath erioed,  
Gwel'd mwg hen simfa'r "Dolydd,"  
Yn codi rhwng y coed ;  
A'r teulu mân, &c.

Ar hyny, fe'u hadwaenid,  
Yn do'd yn ngoleu'r lloer,  
A buan fe'u croesawid,  
I mewn o'r eira oer :  
A'r teulu mân, &c.

Wel dyna'r tad a Gryffydd,  
Y fam a Gwladys bach,  
Yn gwllwm am eu gilydd,  
Yn estyn cusan iach ;  
A'r teulu mân, &c.

I'r parlwr aent o'r gegin,  
O amgylch y ford gron,  
A'r wydd, a'r biff, a'r pwding,  
Yn doraeth ger en bron ;  
A'r teulu mân, &c.

## YR ADRODDIADUR BARDDONOL.

Y celyn a'r uchelwydd,  
 Addurnent yr holl le,  
 Pa deulu fu mor ddedwydd  
 Yn unman dan y ne';  
 A'r teulu mân, &c.

Aent eilwaith am yr aelwyd,  
 Lle'r ydoedd cety'n glan,  
 A phawb rhag ofn yr anwyd,  
 Yn nesu at y tan :  
 A'r teulu mân, &c.

A'r tad o'r gadair freichiau,  
 Yn ddifyr iawn a roes,  
 Adroddiad o rinweddan,  
 Gorchestol bore' i' oes ;  
 A'r teulu mân, &c.

Ond wedi'r holl lawenydd,  
 Fwynhai'r gymdeithas lon,  
 Ni welsant mwy eu gilydd,  
 Byth ar y ddaear hon ;  
 A'r teulu man, a'i ar wahan,  
 Or aelwyd lan, heb seinio cân, &c.

## Y TYMHORAU.

**G**WELIR Gwanwyn yn nesau,  
 Pan fo'r blodau'n amlhan,  
 Pan fo'r rhos yn britho'r llwyn,  
 A'r adar mwyn yn canu ;  
 Pan fyddo'r wig yn fwsig per,  
 A phob rhyw le dan nodded Ner  
 Yn dyner yn cyd-wenu ;  
 A phob rhyw le, &c.

Buan wedy'n daw yr Haf,  
 Pan y gwella'r truan claf;  
 Gwel'd y wenol, gwrando'r gog,  
 Wna'n chwanog dan grechwenu,  
 Y nos yn fer, a'r dydd yn hir,  
 Y ddol yn werdd, dan awyr glir,  
 Adwaenir yn cyd-wenu,  
 Y ddol yn werdd, &c.

Gwedy'n daw'r Cynhauf llawn,  
 Gwelir pawb yn brysur iawn,  
 Ar y maes yn cywain yd,  
 A'u gesyd heb wg eisiau,  
 A phan ddaw'r ysgub ola'i'r ardd,  
 Ar dannau'r delyn, chwery'r bardd,  
 I'r cor yn hardd eu harddan,  
 Ar dannau'r delyn, &c.

Gauaf eilwaith doa'r tir,  
 Dydd yn fyr, a nos yn hir,  
 Pawb ar gylch ar aelwyd lan,  
 Fydd at y tân yn tynnu,  
 Rhyw dymor byr a roed i'n rhan,  
 Ac felly blwyddyn einioes wan,  
 Ddaw yn y fan i fynu,  
 Ac felly blwyddyn einioes wan, &c.

---

#### ARWYDDION GWLAW.

**P**AN byddo sychder maith,  
 Bydd llawer iawn o gwyno,  
 Cyn troi yr hin yn llaith,  
 Bydd lluaws yn prophwydo,

## YR ADRODDIADUR BARDDONOL.

Y celyn a'r uchelwydd,  
 Addurnent yr holl le,  
 Pa deulu fu mor ddedwydd  
 Yn unman dan y ne';  
 A'r teulu mân, &c.

Aent eilwaith am yr aelwyd,  
 Lle'r ydoedd celyn glan,  
 A phawb rhag ofn yr anwyd,  
 Yn nesu at y tan :  
 A'r teulu mân, &c.

A'r tad o'r gadair freichiau,  
 Yn ddifyr iawn a roes,  
 Adroddiad o rinweddau,  
 Gorchestol bore' i' oes ;  
 A'r teulu mân, &c.

Ond wedi'r holl lawenydd,  
 Fwynhai'r gymdeithas lon,  
 Ni welsant mwy eu gilydd,  
 Byth ar y ddaear hon ;  
 A'r teulu man, a'i ar wahan,  
 Or aelwyd lan, heb seinio cân, &c.

## Y TYMHORAU.

GWELIR Gwanwyn yn nesau,  
 Pan fo'r blodau'n amlhau,  
 Pan fo'r rhos yn britho'r llwyn,  
 A'r adar mwyn yn canu ;  
 Pan fyddo'r wig yn siwsig per,  
 A phob rhyw le dan nodded  
 Yn dyner yn cyd-wer  
 A phob rhyw le, &c.

yn awr,

yn,

disgyn.

dd,

au,

l,

stell,

elli,

w i gyd,

rhwbio

cyd

gio ;

au,

llten.

au,

ymalau,

y tan,

goesau,

gerllaw,

gorphwys

gllaw,

ymarllwys !



Ond pan y delo'r gwlaw,  
 Bydd llawer o arwyddion,  
 I'w gweled yma a thraw,  
 A'i gwna yn amlwg ddigon,

Mae'r awyr yn trymhau  
 Fe gwympa yr Hin-wydyr,  
 Arwyddion yn cryfhau,

Fod anian yn ei gwewyr,  
 Mae twrw yn y mor,  
 A'r llwch o flaen y corwynt,  
 A'r gwynt yn nghil y ddor,  
 Yn chwiban â mawr helynt.

Mae llenni dros y nen,  
 A niwl yn toi y brynian,  
 A'r Wyddfa'n cuddio'i phen,  
 Dan orchudd y cymylau ;  
 Machluda'r haul cyn nos,  
 Mewn galar wisgoedd cochddu,  
 A'r lloer oedd fel y rhos,  
 Yn awr yn prudd alaru.

Tynhau mae drws y ty,  
 A'r lloriau'n wllithog leithion,  
 Fe gwympa'r huddugl du,  
 I lawr o'r simfa'n blygion,  
 Mor uchel ydyw llais,  
 Y cricied ar yr aelwyd,  
 Pryf-copyn yntau gais,  
 Yn nrws ei dy ymysgwyd.

O'r gwichian y mae'r moch,  
 Gan bryfed yn eu pigo,  
 Mae'r gwyddau'n codi'u cloch,  
 A'r hwyaid bron a ffræo ;

Mor chwim mae'r brain yn awr,  
 Yn chwareu ar eu hedyn,  
 A'r wenol gyda'r llawr,  
 I'w gwel'd yn mron a disgyn.

Yngau mae'r llygaid dydd,  
 A gwyro mae'r briallu,  
 A dagrau'r nerob sydd,  
 I'r gegin yn dyferu,  
 Mae'r gath yn llyfu gen,  
 A'i gwinedd yn yr astell,  
 Tra gwibia'r milgi hen  
 I'r maes i bori glaswellt,

Mae'r byrddau heddyw i gyd,  
 Yn gwichian wrth eu rhwbio  
 Mae'r gadair fawr a'r cryd  
 Yn siarad wrth eu siglo ;  
 Fe haerau Sion y gwas,  
 Y clywodd ef y daran,  
 A bod yr awyr las,  
 Yn dangos ambell fellten.

Fe gwyna modryb Sian,  
 Fod cric yn ei chymalan,  
 Mae fewyrth, wrth y tan,  
 Yn prysur rwbio'i goesau,  
 Mae'r mynydd pell gerllaw,  
 A'r cwmwl arno'n gorphwys  
 Yn profi oll fod gwlaw,  
 Yn gawod ar ymarllwys !

## GALLUOEDD ANGEL.

**G**ALL Angel heb un trosol, symudo lloer y nen,  
 Neu' maffyd yn ei chongl, a'i thafu dros ei ben,  
 Gall chwyddo n fwy na chawrfl; er hyn ysprydion pur,  
 All ddawnsio wrth y dengmil ar flaen'y nodwydd ddur?

Ehed yn fyrdd cyflymach, na'r fellten yn ei grym,  
 Mae'i haden yn denenach, na min y cleddyf llym,  
 Fe ruthra trwy yr wybren, fe dreiddia'r cwmwl draw,  
 Heb enyn fflam na mellten, heb gyffro gwres na gwlaw.

Er hyny, pan y mynno, fe yr elfenan'r byd,  
 Y tan a'r dwr i ffræo 'n gynddeiriog yn eu lliid,  
 Fe hollta'r creigiau'n deilchion, fe dodda'r dur yn llyn,  
 Cythrybla'r glob i'w chalon, fe sigla ddaear-gryn.

Fe lwnge i'w fol y corwynt, fe gyfyd dymestl fawr,  
 Fe chwyth blanedau rhagddynt, fe luchia'r ser i lawr,  
 Ffyrniga donnau'r weilgi, i lyngcu'r llongau'n nghyd,  
 Fe dd'rysa anian drwyddi, atalia gwrs y byd!

## GWLADGARWCH.

**M**AE cariad at ei wlad ei hun,  
 I ddyn yn fawr ddaioni,  
 Meddiana'i galon oll yn lan,  
 O anian wrth ei eni,  
 Gwna fro yr ia, fel gwlad y gwres,  
 Yn gynnes wrth eu gweini.

Mae'r Negro du, mewn llwyn neu berth,  
 Yn gwybod gwerth ei gaban,  
 A brodor Greenland oer, a'i glod,  
 I'w hynod dir ei hunan,  
 A chlywn yr Iuddew, o bob bro,  
 Yn cwyno am wlad Canaan.

Canmola Twrc rinweddau'i wlad,  
O gariad at ei goror,  
Ac at hen breswyl gynta'i dad,  
Daw Rwsiad am ei drysor,  
A'r Ffrencyn am ei dref a dyn,  
I'w dilyn hyd ei elor.

Myn Gwyddel byth mai gwlad yr Haf,  
A'r harddaf yw'r Iwerddon,  
Ac i'r Ysgotyn, Alban sydd,  
Ar gynnydd mewn bargeinion,  
Mae'r hosan fraith, a'r bibell-god  
O'r gwaelod ar ei galon.

Ond Lloegr swyna galon Sais,  
A'i annedd gais yn gyson,  
Breuddwydia am ei loches glyd,  
A'i golud leinw'i galon,  
A'r aelwyd mewn dychymyg oedd,  
Yn nefoedd i'w hynafion.

A minau sydd o gywir serch,  
Am lanerch yn ymlynu,  
Ar lethrau iachus "gwlad y gân,"  
Ag anian arnî'n gwenu,  
Ni hoffwn fwy na bwth i fyw,  
Ac amryw wleddoedd Cymru.

Mae llawer yn mhob oes o son,  
Am goron o Wladgarwch,  
Nid rhyfedd gweled brawd ar ol,  
Ei enedigol degwch,  
Ni chenfigenwn at un fro,  
Dueddo er dedwyddwch.

Mae'r Saeson oll, bob gwr a gwas,  
 Am ffoledd rās ceffylau,  
 Rwyf finnau yn parhau o hyd,  
 Am fyd yr Eisteddfodau,  
 A chanu gyda'r tannau tyn,  
 Ar delyn bêr ei diliau!

---

 YR AWR-WYDR.

**D**RWY y Gwydyr gloew glan,  
 Buan rhed y tywod mân,  
 Rhed y cyfan mewn un awr,  
 O'r cwr uchaf hyd y llawr.  
 Ond os troir ei waelod fry,  
 Rheda eilwaith fel y bu,  
 Rhed i lawr, o raen i raen,  
 Mesur amser fel o'r blaen.

Ond pan redo tywod oes  
 Dyn, wrth drefn yr hwn a'i rhoes,  
 P'le mae'r llaw o dan y nef,  
 A all droi ei wydyr ef?  
 Pan fo'r tywod wedi ffoi,  
 Pwy all eilwaith eu crynhoi?  
 Rhed pob mynudd a phob awr,  
 Draw i'r tragwyddolfyd mawr!

---

 YSTYRIAETH AR OES DYN.

**A**R aden gyflym iawn y ffoes,  
 Rhifedi holl flynyddau f'oes,  
 Yn ol bwriadau'r Hwn a'u rhoes,  
 Yn ei lywodraeth fawr;

Ac am y gweddill eto sydd,  
 Dirwyna 'i ben, o ddydd i ddydd,  
 A gweinidogaeth angau rydd  
 Y terfyn ar y llawr.

Ac os oes adeg fer yn ol,  
 Colli un awr wnai weithred ffol,  
 Heb lechu yn nghariadus gôl,  
 Unig Waredwr dyn ;  
 "Mi wn i bwy y credais i,"  
 Pwy ond yr Iesu mawr ei fri,  
 A ddaliai'n graig o noddfa'i ni,  
 A'i haeddiant ef ei hun ?

Mae brodyr imi nifer mawr,  
 A fu'n cyd-ymdaith ar y llawr,  
 Na fedraf ond eu coffa'n awr,  
 Gredasant ynddo ef ;  
 Os caf fy arwain yn ei law,  
 Nid ofnaf finau frenin braw,  
 Ond tremiaf dros Iorddonen draw,  
 Am Ganaan yn y nef !

---

#### CENFIGEN.

**M**I guddiais hedyn bychan,  
 Ryw foreu'n mhridd yr ardd,  
 Fe dyfai'n flagur tirion,  
 Nes do'd yn rhosyn hardd ;  
 Fe daerai rhai cym'dogion,  
 Mai chwyn niweidiol oedd,  
 Melldithient fi a'r impyn,  
 Mewn cabledd brwnt ar goedd.

Ond buan wedi hyny,  
 Hwy ddringent ben y wal,  
 I dynnu o'r blodeuyn,  
 Yr had, ar frigyn tal;  
 Hauasant yr holl gynnyrch,  
 Dros derfyn gwlad a thre',  
 A buan yr addurnent,  
 Ymylon pob rhyw le.

Ai'r cenfigenwyr, hwythau,  
 Yn wallgof erbyn hyn,  
 Gan haeru fod eu brodyr,  
 Yn prysur feithrin chwyn;  
 Ond wedi'r gwawd a'r gecraeth,  
 A daenid dros y wlad,  
 Fe welwyd nyth y cacwn,  
 Yn llawn o'r chwyn a'r had.

Mae yma wers naturiol,  
 Fel rhybudd i bob un,  
 Er pwyso eu dybenion,  
 Cyn beio unrhyw ddyd,  
 O herwydd myn cenfigen,  
 Ei lladd ei hun, cyn hir,  
 Yn mynwes ei pherchenog,  
 Fel llosgi chwyn y tir.

Mae gormod o eiddigedd,  
 Yn drygu llawer iawn,  
 Gan fagu drwg-ewyllys,  
 Er atal llwyddiant llawn;  
 Er uwched bo cenfigen,  
 Fe fyn y gwir ei le,  
 Mae'r "asgre lan," yn dawel,  
 Dan nodded IOR y ne!

CYFIEITHIAD O'R "KIND MINSTREL."

*Gwel Gems of "Welsh Melody."*

OWAIN ALAW.

CYWEIRIED y cerddor ei delyn mewn hwyl,  
 I seinio croesawiad agoriad ein gwyl,  
 Na foed ond peroriaeth yn chware'n ein clyw,  
 Tra Cymry'n unedig arbenig yn byw,  
 Mewn llawnder neu drallod, caethiwed neu fri,  
 Hen Gymru i Gymro, gwir anwyl wyt ti,  
 "Mewn awen fwyn lawen byw byth y bo'm ni."

Er crwydro o'i bryniau a'i dolydd yn mhell,  
 Hi ydyw ein mamaeth, er gwaeth ac er gwell ;  
 Na foed i ymryson, gobrwyon, na brâd,  
 Byth ddatod yr undeb rhwng Cymry a'u gwlad ;  
 Beth bynag o'th achos fo'n aros i ni,  
 Ni gofiwn, hen Gymru, mor anwyl wyt ti,  
 "Mewn awen fwyn lawen byw byth y bo'm ni."

Meillionen Iwerddon, sy'n ddisglaer ac fr,  
 Yn bleth am Genhinen ac Ysgall ein tir,  
 O boed iddynt uno rhag oerder y nos,  
 Yn gysgod diogel i Loegr a'i Rhos,  
 Dan darian yr undeb bydd Brydain mewn bri,  
 Tra'n ddychryn gormeswr, nawdd hael fyddo hi,  
 "Mewn awen fwyn lawen byw byth y bo'm ni."

Fel hyn y datgana dy blant pan o'u gwlad,  
 Yn drist neu yn llawen dan heddwch neu frad,  
 Er gadael am dymor dy lethrau teg lun,  
 Ein calon a'n cariad am danat a lyn,  
 Gwel yma'n cyfarfod, mor hynod, yn rhi,  
 Dy ferched a'th feibion, fel Brython, mewn bri,  
 "Mewn awen fwyn lawen byw byth y bo'm ni."



## YN IACH I ARFON.

PRESWYLIO'R ydym oll bob pryd,  
 Yn nghanol byd gofalon,  
 Heb neb yn gallu ar y llawr,  
 Ragweled fawr o'i droion,  
 Na disgwyl gwel'd ar rybudd bach,  
 Rai'n canu'n iach i Arfon.

Mae un yn croesi trefn ei Dad,  
 Wrth ado'i wlad, yn estron,  
 A'r llall wrth ddoeth ragluniaeth ne',  
 Yn newid lle'i gysuron;  
 Ar amnaid gan eu Meistr mawr,  
 Ni lynant awr yn Arfon.

Fel hyn mae'r llwybr weithiau'n hir,  
 Cyn do'd yn glir i'r Cristion,  
 O'r diwedd llaw ddirgelaidd Ior  
 Agora'i dor yn dirion,  
 I'w dysgu'n hawdd drwy wersi bach,  
 I ganu'n iach i Arfon.

Diangodd rhai heb genad draw,  
 Rhag gwynt a gwlaw trallodion,  
 Ond buan iawn aent dan y tes,  
 Yn wyr di-les dan loesion,  
 Ac aml rhoent o'u hannedd lom,  
 Ochenaid drom am Arfon.

Ni chafodd neb, er chwilio'n ddwys,  
Baradwys yma'n union,  
Er teithio daear ar ei hyd,  
Nid eir o fyd y cwynion,  
Rhaid tramwy'n fynych arwach llawr,  
Na'r creigiau mawr yn Arfon.

Planbigyn tyner yn y rhos,  
Rhy agos at yr eigion,  
Rhaid symud hwn yn nes i'r de,  
A'i ddwyn i le cysgodion,  
Fe dyf yn ngwres y gwledydd pell,  
Yn llawer gwell nac Arfon.

Os pletha'r awen mewn gwlad oer,  
Yn ngoleu'r lloer benillion,  
Ni chân yr eos lle bo rhew,  
Ac eira tew yn blygion,  
Nifeiddia agor byth m'oi phig,  
Ar unrhyw frig yn Arfon.

Ond lle bo serch un at ei wlad,  
Fe lunia ganiad ffyddlon,  
Mae map o'i fro, ei hyd a'i lled,  
I'w gweled ar ei galon,  
Mor anhawdd bythol ei ddileu  
Ag fyddai creu ail Arfon.

Fe neidia 'r nodwydd at ei phwynt,  
Er gwaetha 'r corwynt creulon ;  
Fe red yr afon gyda'r llawr,  
O'r bryniau mawr i'r eigion,  
Fe dyn Eryri serch ei phlant,  
O bob rhyw bant i Arfon.

Anfona ddelw'i llethrau serth,  
 A'i phrydferth ddolydd gleision,  
 I'w meddwl drwy ei throellog ffyrdd,  
 Yn llawer myrdd o swynion,  
 Adsainia'n glir o'r Penmaen-bach,  
 Nol canu'n iach i Arfon.

Y meddwl ddengwaith yn y dydd,  
 Ar aden brudd dych'mygion,  
 Ehed i olrhain gwlad ein mam,  
 Sy'n gwlm am y galon,  
 Mewn awydd mawr, o oror bell,  
 Roi henffych well i Arfon.

Wrth wel'd pererin yn ei waith  
 Yn dilyn taith nefolion,  
 Heb iddo orphwys dref na thy,  
 Nes cyrhaedd fry i Sion,  
 Coffeir yn fynych ini fel,  
 Y rhoem ffarwel i Arfon.

Mwy peth i ni nac unrhyw fro,  
 Yw'r peth y bo'n dybenion,  
 A dyma'n benaf ydyw'r nod,  
 Pa fodd i fod yn foddlon,  
 Ni phery'n taith ond tymor bach,  
 Rhaid canu'n iach i Arfon!

#### Y SESIWN WAG,

Neu Menyg Gwynion Modryb Gwen. (Venedocia's White  
 Gloves, or the Maiden Assize of Wales).

**A**R daith i "wlad y bryniau," y do'i yr Ystys mawr,  
 I weini'r teg gyfreithiau, a rhoi troseddau'i lawr,  
 Ni welsai'r gwr urddasol, un ran o Gymru'r 'ioed,  
 A mawr fel y dych'mygai'r fath wyr oedd yno'n bod.

Disgwyliai wel'd y meibion, a chyrrn oddiar eu pen,  
A'r merched yn ellyllon, fel "Mari'r fantell wen,"  
A phawb a'i ddagr finiog, yn crogi wrth ei glun,  
A'r wlad yn enbyd ddigon ar daith i ddieithr ddyrn.

Ond erbyn dyfod yma fe synai wel'd pob dyn,  
A golwg hawddgar arno, pur debyg iddo'i hun,  
A'r merched y rhai tecaf, a welsai'rioed o'r blaen,  
Yn ddiwyd wrth eu byrddau yn eu ceginau glan.

Ar ddiwrnod mawr y Sesiwn, doig weision Siryf res,  
I'w arwain drwy yr heol, wrth sain yr udgorn pres,  
Nes do'd i'r llys agored, a'r rheithwyr oll ger bron,  
Ond heb yr un troseddwr i'w brofi'r Sesiwn hon.

Rhyfeddai'r Ystys enyd, wel'd ar y ddalen geid,  
Mewn llythyrenau cochion, "*No prisoner to be tried,*"  
Ond tua'r godren gwelai, achosion dau neu dri,  
Ag enwau hollol ddieithr i bawb adwaenom ni.

Doi'r cynta' mlaen i ateb cyhuddiad am ei fai,  
Rhyw *Nafi* anwybodus, a fu'n chwilienâ tai ;  
Gofynai'r Ynad enwog, "*Whence came this rustic  
clown ?*"

Atebai Osborne Morgan, "*His name is William  
Brown.*"

Do'i Donald gyda Murphy, i ateb am eu ffræ,  
Pr'un oedd y cywir denant oedd wedi rhentu cae,  
Fe haerai Watcyn Williams, fod Donald o dan oed,  
Ond profid i'r gwrthwyneb yn hawdd gan Morgan  
Lloyd.

Ar hyn do'i achos Cymro, i brofi ystyr gair,  
Pa beth olyga "*eiddo,*" pa un ai'r tir ai'r gwair ?

Nol chwilio drwy' Burn's Justice, a chyfraith Hywel  
Dda,  
Ceid prawf fod iaith yn newid, mor rhwydd a gwllith  
yr ha.

Os ydoedd gwyr y ferwig yn ddig o herwydd hyn,  
Nid oedd ond un yn grwgnach, rhyw sais mewn tormach  
tyn,  
Wrth wel'd ei hun a'i frodyr, mor brysur heb un *brief*,  
Fe dyngai hwn, "*The Welshman-must be a rogue or  
thief.*"

A thra'r anrhegai'r siryf, a'i saesneg Pen ar lag,  
Y Judge a menyg gwynion, i gofio'r Sesiwn wag,  
Anerchai ef mewn araith, "*My lord, the court's ar ben,  
Accept these MENYG GWYNION, knit by my Modryb  
Gwen.*"

---

### CI Y PYSGOTWR.

Clywid morwyr dewr yn crechwen,  
Daenai'r hwyliau dan yr heulwen,  
Gyda gobaith mordaith lawen,  
Dros y cefnfor draw:  
Gwenai'r bore wawr yn dirion,  
I brydferthu wyneb eigion,  
Luniai ddrych o'r glanau gleinion,  
Heb un achos braw;  
Ond och! o'r cyfnewidiad,  
A ddo'i heb un disgwyliad,  
I guddio'r nen, fel tywyll len,  
A'r haulwen gyda'r eiliad,  
Gwibiai mellt, trymhai taranau,  
Holltai corwynt yr hwylbrenau,

Collai'r llong o nod y pwyntiau,  
 Gan y storom ffin;  
 A phan gynhyrfai'r cefnfor,  
 Fe dorai tid yr angor,  
 Ysigai'r llyw, a'r byrddau'n wyw,  
 A rhwygai amryw'n rhagor;  
 Collid golwg ar y glanau,  
 O dan hyrddiad berwawg donnau,  
 Sain y gloch, a goleu'r lampau,  
 Foddai garw hin.

Tafiai'r morwyr raff i'w chludo,  
 I'r ci Gelert, oedd yn gwylio,  
 Ar y graig gerllaw oddiyno,  
 Er ei dwyn i'r lan;  
 Neidiai'r dewr oddiar y geulan,  
 Rhwng y tonnau gwyllt yn fuan,  
 Weithiau danynt, weithiau allan,  
 Nofiai at y fan;  
 Roedd pawb o'r lan yn disgwyl,  
 Pa fodd y gwnai ei orchwyl,  
 A llef y rhai, oedd yn cryfhau,  
 "Drwy'r tonnau Gelert anwyl,"  
 A dyna'r fonllef fawr fel taran,  
 Wrth ei wel'd yn cael ei amcan,  
 Nofiai gyda'r rhaff yn fuan,  
 Drwy'r llifeiriol fôr;  
 Roedd pawb o'r traeth yn cyffro;  
 Uwch, uwch, y codai'r bloeddio;  
 Ac ar y lan, a'r bryniau ban,  
 Magnelau 'n gan yn tanio;  
 Tynnai'r dorf a'r rhaff yn fuan,  
 Bawb i'r lan, y llong a'r cyfan,  
 Wedi gwisgo'r Ci a'r ruban,  
 Molai bawb yr Ior!

## CERDD EISTEDDFOD.

**M**AE oes y prophwydi yn awr wedi do'd,  
 Ni bu y fath nifer yn Nghymru erioed,  
 A swm eu darogan mewn geiriau'n dra gwag,  
 Yw, "Buan y derfydd yr hen Iaith Gymraeg!"  
 Ond er darogannu mewn geiriau'n dra gwag,  
 Mai buan y derfydd yr hen iaith Gymraeg,  
 Bydd oesoedd y bydoedd i'r hen Iaith Gymraeg!

Un prophwyd a haerai wel'd angau yr Iaith,  
 Ac nad yw ei thymor hi eto yn faith;  
 Myn arall mai angerdd yr agerdd a roes,  
 O beiriant y rheilffordd i'w chalon y loes  
 Ond er darogannu, &c.

Fe haerai un arall mai deall a dysg,  
 Sy'n gyru ei chamrau mor gyflym o'n mysg;  
 Un arall a daerai yn mhoethder ei nwyd,  
 Fod ei helor yn barod ar ffordd Dyffryn Clwyd,  
 Ond er darogannu, &c.

Un arall fyn alwad a bwriad di barch,  
 I lifio yn barod estyllod ei harch;  
 Un arall am weithio ei hamdo 'n ddi hedd,  
 A naddu y Wyddfa yn gareg ei bedd,  
 Ond er darogannu, &c.

Os methodd cledd Iorwerth yn hollol ei lladd,  
 A Harri a'i ddeddfau ei nychu'r un gradd,  
 Fe fetha'r gau brophwyd a reibiwyd, gwir yw,  
 Mae'r iaith yn dragwyddol, anfarwol i fyw!  
 Er pob darogannu, &c.

DALLINEB CORPHOROL.

(Efelychiad o Milton.)

**N**ID ofnaf ddim ; nid yw'r tywyllwch hwn,  
 Ond cysgod aden glyd ;  
 O dani'r ydwyf yn ddiogel iawn,  
 Rhag niwaid drygau'r byd ;  
 O'm hamgylch tybiwyf wel'd yn myn'd a dôd,  
 Gysgodion engyl glân ;  
 O'u gwefus bur, dychmygai'n awr fy mod,  
 Yn clywed melus gân !  
 Pa golled yw, os ar fy nheimlad i,  
 Llewyrcha Eden gu,  
 I'm llawenhau yn mhur gymdeithas Ion,  
 A'r byd yn d'wyllwch du ?

“GWELL YW DAU NAG UN.”

(Priodasgerdd.)

**M**l welais Dderwen gadarn, oedd ar ei throed ei  
 hun,  
 Yn frigog ei changhenau, pur deg ei lliw a'i llun ;  
 Mi welais Wyddfid dyner, am dani'n tyfu'n bleth,  
 Wrth wel'd yr undeb agos, myfyriwn arno beth.  
 I'r egwan er ei thyfiad, y rhoddai'n gadarn nawdd,  
 A'r wan a ro'i gynhesrwydd, i'w chalon hithau'n  
 hawdd ;  
 Gan gynorthwyo'u gilydd, cysurai'r naill y llall,  
 Ac amlhai canghenau, o geinciau heb un gwall.  
 Gerllaw, wrth droed y mynydd, mi welwn Ffrydiau,  
 ddwy,  
 Yn uno'n afon loew, wrth derfyn Llan y plwy',



Nad ellid eu gwahanu, na'u nabod ond fel un,  
Gofynwn, "Beth arwyddai, y ddau ffugyrol lun?"

Ar hyny, gwelwn gwmni, yn cyd-ddynesu'n wyl,  
At allor glan briodas, dan gysegredig hwyl;  
A phwy oedd yn y canol, ond dau i'w rhwymo'n un,  
Sef mab a'i lan ddyweddi, ymwystlai'i fyw'n gytun.

Pa un o'r ddau ddarluniad, sy'n taro'r teinlad byw,  
Agosaf i'r amgylchiad ar galon ac ar glyw?  
Mae'n anhawdd penderfynu, ond gwna pob un o'r ddau,  
Bortread tarawiadol, fel gwers i eglurhau,

Mor werthfawr ar y ddaear, yn holl drafferthion byd,  
Yw'r fodrwy briodasol, mewn undeb ar bob pryd,  
I lanw cylch cymdeithas, addefa profiad dyn,  
Er anrhydeddu'r Crewr, mai "Gwell yw dau nac un!"

### TRI CHEDYRN CYMRU.

P'LE mae'r hen seraphiaid tanlyd,  
Siglai'r ddaear—siglai'r nef—  
P'le mae Elias—p'le mae Williams—  
P'le mae Christmas, fwyn ei lef?  
O blith gwerthfawr feibion Lefi,  
Collais olwg ar eu gwedd;  
Ciliais o'r Gymanfa'i ddarllen,  
Enwau'r tri ar gareg bedd!

Tri wynebai gloddfa natur,  
Ac a dynai'r mellt i lawr,  
Dreiddiai rhwng yr haenau celyd,  
Holltai drwy'r clogwyni mawr,  
Tywalltiadau gwres y cariad,  
Doddai galon graig yn llyn,

Duw gyfodai blant i Abra'm,  
O'r cudd-feini geirwon hyn.

Dyma nerthoedd a ddymunwn,  
Weled eto yn fy ngwlad,  
Myrdd yn gwaeddi am eu bywyd,  
Ac yn ffoi i'r noddfa råd,  
A'r cawodau yn ysgubo  
Ymaith holl anfoesau'r byd,  
Daear wedi'i chreu o'r newydd,  
Fel paradwys eto'i gyd.

---

#### ANFARWOLDEB.

FYSPRYD ddychwel ato ef,  
A roes y nefol fflam;  
Na thybia, Haul, y taw ei lef  
Dros byth—a dwedaf pam;  
Deil eto'n fyw, yn ddisglaer fod,  
Mewn tecach gwedd na'th wawr,  
Pan elwir ef i'r llys, i ddod,  
O blith tylwythau'r llawr,  
Gan y tragwyddol Ddwyfol un,  
Ddinystria angau'r byd,  
Ysbeilia'r bedd, a'i nerth ei hun,  
O'i holl drysorau drud!  
Dos haul—a dywed wrth y nos,  
A guddia'th wyneb gwiw,  
It weled un wreichionen dlos,  
O anian dynolryw,  
A bery i lewyrchu'i maes,  
Cyhyd a'i chrewr mawr,

Tra nad wyt ti, ar awyr las,  
 Ond canwyll welw'i gwawr ;  
 Ond cofia ddweud, y tynaf mwy,  
 Fy llewyrch i barhau,  
 O wyneb Haul Cyfiawnder, drwy  
 Ei haeddiant sy'n ddi-drai !

## BRADWRIAETH JUDAS.

JUDAS, wedi cael ei amcan,  
 Dro'i yn llawen iawn o'r llys  
 Rhifai'r deg ar hugain arian,  
 Ddengwaith drosodd, gan ei flys ;  
 Wedi cyrhaedd dros y gamfa,  
 Wrth gyfeirio tua thref,  
 Daliai'r pwrw a'r aur i fynu,  
 Yn ngoleuni lloer y nef.

Dodai'r trysor yn ei logell,  
 Eilwaith yn ofalus iawn,  
 Eto'n amheu gan ei awydd,  
 Rywfodd, oedd y cyfri'n llawn,  
 Sefyll yno ar y llwybr,  
 Methu do'd yn mlaen i'w daith,  
 Bron ag amheu'i law ei hunan,  
 Teimlo'i logell lawer gwaith.

Ac yn ofni yn ei galon,  
 Golli'r un o'r darnau man,  
 Eto'n teimlo gan ei bryder,  
 Fod ei logell fel ar dan ;  
 Teimlo'i galon lesg yn curo,  
 Yn ei fynwes megis gordd,  
 Tybio gwel'd ysprydion filoedd,  
 Yn ymrithio gyda'r ffordd.

Ac wrth gyrchu tu ag adref,  
 Ofni gwel'd ei gysgod du,  
 Arswyd trystio ar y palmant,  
 Cyn cyrhaeddyd drws ei dy ;  
 Wedi cyrhaedd i'w ystafell,  
 Methu ag archwaethu dim,  
 Cilio'n ddistaw i'w orweddle,  
 O dan bwys euogrwydd llym.

Hun ei amrant wedi cilio,  
 Tynai'r dillad dros ei ben,  
 Ond cydwybod wedi deffro,  
 Baentiai'i weithred ar y llen,  
 Meddwl wedi ymddyrysu,  
 Wnai y manblu megis drain.  
 Poen a gofid anoddefol,  
 Frathai rhwng pigiadau'r rhain.

Tybiai wel'd y gwely'n wenfflam,  
 Neidiai'i fynu yn ei fraw,  
 Nol ymwisgo brysgai ymaith,  
 Gyda'r arian yn ei law,  
 Ofni ar bob cam a gerddai,  
 Wel'd y ddaear o bob tu,  
 Yn ymagor er ei lyngcu'n  
 Fyw i waelod uffern ddu.

Rhedai hyd y llys Iuddewig,  
 Gwaeddai, "O fy ngweithred ffol,  
 Pechais, gan fradychu'r gwirion,  
 Dyma'r arian i chwi'n ol."  
 Wedi cefnu ar y bradwyr,  
 Cwypai dan ei drallod mawr,  
 Rhwygai poen ei ymysgaroedd,  
 Trengai yntau ar y llawr.

Gwae ac ofn ddirdynai'i enaid,  
 Loesion na theimlasai'r ioed,  
 Dychymygai wel'd yr Iesu,  
 Tirion, hawddgar, dan ei droed ;  
 Yntau 'n marw dan euogrwydd,  
 Melltith ei ryfygus frad,  
 Heb gael pwyll i godi golwg,  
 Unwaith at drugaredd rad.

Ti wrthgiliwr, gwel dy ddarlun,  
 Yn y drych ofnadwy trwm,  
 Pa ddychymyg wneir o bwysau,  
 Pluen, wrth fynyddau plwm,  
 I'w gymharu â thrueni,  
 Dyfnder colledigaeth dyn,  
 Fathrodd waed yr unig Geidwad,  
 A'i drugaredd ef ei hun !

---

CYNHAUAF EFENGYL.

**M**AE cysgodau 'r nos yn cilio,  
 Gwawr yn tori oddi draw,  
 Llenni'r awyr yn ymagor,  
 Arwydd fod y dydd gerllaw,  
 Haul y nefoedd sydd yn agos,  
 I oleno'r cysgod du,  
 Dacw'i wyneb yn ymddangos,  
 Buan yr esgyna fry.

Disgyn mae'r tywyniad cyntaf,  
 Draw ar ben y bryniau mawr,  
 Gostwng wna y gwres yn araf,  
 Nes cyrhaeddyd godreu'r llawr,

Nid oes cilfach rhwng mynyddau,  
 Na lewyrcha'i oleu clir,  
 Nid oes ia yn llechu'r gaua'  
 Man na thawdd ei wres cyn hir.

Dacw'r hen fwystflod rheibus,  
 I'w llochesau pell yn ffoi,  
 Dacw'r adar ysglyfaethus,  
 Am eu nythod draw yn troi,  
 Dacw'r milod yn y tresi,  
 Wedi'u dofi gan y dyn,  
 Wrth y fen yn ngwaith arloesi'n  
 Dwyn y llwythi'n hardd eu llun.

Dacw'r maesydd dan y driniaeth,  
 Sydd yn dwyn rhagoriaeth gwir,  
 Rhyfedd gwel'd o'r anial diffaeth,  
 Egin doraeth o'r fath dir,  
 Heddyw meillion per sy'n tyfu,  
 I rinweddu'r borfa fras ;  
 Dacw'r llygad-dydd yn tarddu,  
 Fyrdd i fritho'r cwrlid glas.

Brysia'r llangces draw i odro,  
 Gan ystyrio efo'i' 'stên,  
 Dacw'r bugail gyda'r defaid,  
 Yn eu gwylied gyda gwên,  
 Rhwng y coed tu draw i'r gadlas,  
 Gwelai'r palas uwch y pant,  
 Fraich yn mraich mae'r teulu tyner,  
 Yn eu pleser gyda'r plant.

Clywai'r durtur acw'n pyncio,  
 Gwelai'r wyn yn gyffro i gyd,  
 Y mae'r ych a'r hwrdd yn prancio,  
 Neb i'w beiddio yn y byd,

Y mae coed y maes yn deffro,  
Bron a dawnsio ar en dail,  
Bryniau'r byd gan faint y bloeddio,  
Bron a siglo ar eu sail.

Onid yw yn achos syndod,  
Wel'd y llewod gyda'r lloi,  
Gwel'd yr eirth yn mhlith y mynod,  
Heb eu gorfod i osgoi,  
Gwel'd y wiber mor ddiniwed,  
Gyda'r llewpard wrth y llwyn,  
Gwel'd y plantos yn eu cynull,  
Gyda'u ffrewyll bach, a'u ffrwyn.

Rhydd anturiaeth y masnachydd,  
Fywyd yn mhob gwlad a thre,  
Dyfais ar y mor a'r mynydd,  
Nid yw'n llonydd yn un lle,  
Dawn celfyddyd a thrafnidiaeth,  
Oll yn dwyn gwasanaeth sy'  
I gefnogi amaethyddiaeth,  
Yn narpariaeth lluniaeth llu.

Dacw'r bachgen yn aredig,  
A'r wedd ddiddig ar y ddol,  
Dacw'r hauwr gyda'u bwysig,  
Lestr hadyd ar eu hol,  
Dacw'n canlyn y medelwr,  
Llawenycha'r tri yn nghyd,  
Wel'd y ffrwyth yn llaw y dyrnwr,  
Wedi'i gynull yn ei bryd.

Wedi gwel'd yr ysguboriau,  
A'r t'wysenau yd yn llawn,  
Gwel'd yr us yn llosgi'n fflamau,  
Nithiwyd oll oddiwrth y grawn,

Nid oes neb na wel yn olau,  
 Yn nghynhaua'r gwenith glan,  
 Mai Efengyl a'i heffeithiau,  
 Ydyw sylwedd geiriau'r gan !

### DAFYDD A GOLIAH.

CHWARBUGERDD GYSEGREDIG (Sacred Drama). Ar gynllun  
 tebyg i'r eiddo HANNAH MORR.

Yn Wyth Rhan.

Personau yn y Chwareuawd.—SAUL, brenhin Israel: ABNER, ei gadfridog: JESSE, ELIAB ac ABINADAB, meibion Jesse, a DAFYDD, eu brawd ieuengaf: GOLIAH, cawr y Philistiaid. Yr ISRAELIAID: y PHILISTIAID. Cludydd Arfa'u Saul. MERCHED JUDAH.

Yr olygfa yn y Gwersyll yn Nyffryn Elah, a'r Gwastadedd gerllaw.—(1 *af Samuel*, Pennod xvii.)

### RHAN GYNTAF.

GOLYGFA. PABELL BUGAIL. DAFYDD yn chwareu y Delyn gan ddadganu.

**Y**R Arglwydd yw fy Mugail da, ni chaf mewn eisiau  
 fod,

Darparu i mi orwedd wna'n y borfa oreu'r'ioed.

Fe'm tywys gerllaw'r dyfroedd clir, a'r ffrydiau tawe  
 iawn,

Fe ddychwel f'enaid at y tir, lle mae y ffrwythau'n  
 llawn.

Hyd ffordd cyfiawnder arwain fi, er mwyn ei enw mawr.  
 Tangnefedd yn ei lwybrau sy, i'm mynwes ar bob awr,



A phe y rhodiwn arhyd glyn, a chysgod angau du,  
Nid ofnwn niwaid y rhaihyn, tydi wyt gyda mi.

Dy wialen roddi yn fy llaw, i ymlid gelyn gau,  
A'th ffon i roi fy mhwy, rhagbraw, fydd gysur i barhau.

O'm blaen arlwyi ford o'r nen, yn ngwydd rhai digllon  
iawn,  
A'g olew iraiſt ti fy mhen, a'm phiol sydd yn llawn.

Daioni a thrugaredd gaf, i'm cynal tra bwyf byw,  
Preswyllo yn dragwydd wnaſ, yn nhy fy Arglwydd  
Dduw.

Y mae yn rhoddi ei delyn i lawr, ac mewn ymson wrtho ei  
hnn yn dywedyd.

Mor hyfryd ydyw'r delyn fwyn i mi,  
I'w chwareu yma wrthyf fi fy hun,  
Fy mawl i'r Iou!—yn nyffryn distaw'r wlad,  
O wydd y byd yn unig ar wahan;  
O dan yr uchel fryn, gerllaw y wig,  
Ag awel nef yn chwiban yn y coed,  
Fel miwsig engyl i'm boddhau! Mor fwyn  
Yw murmur gloew ffrwd y nant gerllaw!  
Mae natur yn ymuno oll i'm gwneud  
Yn ddedwydd iawn. A'r delyn seingar hon,  
Sy'n ddigon er llareiddio tymer ddig,  
Pan ymgynhyrfo yn y fynwes ffrom.  
Effeithiol oedd ei sain i ymlid draw  
Yr yspryd drwg, o feddwl poenus, syn,  
Y brenhin Saul, pan mewn anobaith du,  
Y rhwygid ei deimladau ef. O Ior!  
O Dduw fy nhadau!—wele fi yn awr  
Yn ymgyflwyno i'th wasanaeth di;

Pob dawn a thalent, a phob cynneddf bur,  
 A roddaist im, ddychwelaf iti'n ol,  
 Mewn mawl, addoliad, ac anrhydedd byth!  
 Dy enw mawr gaiff fod yn destyn cân,  
 Fy mhen, fy llaw, a'm calon mwy!  
 Yn awr mi wela'n dod fy mharchus dad,  
 Y duwiol lesse; i foddhau prydnhawn  
 Ei einioes ef, arhosaf yma mwy,  
 Yn dawel i fugeilio'n was dinod,  
 Tra Israel Duw, o dan arfogaeth sydd,  
 A Saul ein brenhin enwog ar y maes,  
 Yn herio holl Philistia, a'i gau dduw  
 Sy'n erbyn Ior! yn felldith dynolryw.

### JESSE A DAFYDD.

**JESSE.**—Bendigaid byth fo'r Duw daionus ro'dd  
 I'm henaint fab, i'm llonni o dy fath!  
 Ti yw fy ffon, i bwysio arni'n llwyr,  
 Rhag pryder a phob gofid blin! O'r fath  
 Destynau diolch sydd i mi yn awr,  
 Pau gofiwyf am ardderchog Eli gynt,  
 Heb ddim ond dau o feibion—dim ond dau;  
 Gan ddisgwyl yn ei henaint gysur mawr,  
 Oddiwrt h y ddau; ond yn lle hyny, bu  
 Y ddau yn drallod dyfnaf, pena'i oes,  
 A ddygai ei benllwydni ef i'r bedd,  
 Mewn tristwch gyda dagrau'n lli! Fy Nuw,  
 Diolchwyf byth i ti, am uchel rodd  
 O'r bachgen teilwng hwn i mi!

DAFYDD.—Fy anwyl dad! bydd fyw yn hir! Yr Ion,  
 Orch'myno fendith benna'r nef, yn llawn,  
 I orphwys ar dy ben!—dy blant i gyd,  
 Dy deulu oll, dy aelwyd lan, a fo,  
 Yn Wynfa iti weddill dyddiau d'oes,  
 A honno fyddo'n hir!

JESSE.—

O fy mab

O holl radlonrwydd nef, sy'n addurn oed,  
 Mae'n rhaid i mi mewn hoffder tadol ddweud,  
 Mai'r penaf oll yw'th wylder mabawl di,  
 Sy'n gyfrodedig a'th wroldeb dewr;  
 Ac er i'r sant weledydd dywallt ar  
 Dy ben, yr olew cysegredig, oedd  
 Yn arwydd llawn o'r urddas mawr, i'r hwn  
 Mewn dydd dyfodol, y'th dderchefir di;  
 Mor hynaws wyt, wrth aros gyda'th dad,  
 I wyllo'i braidd mewn gwledig gwm, fel hyn.  
 Mae'n ddarlun teg o ofal grasol Ior:  
 Fel hyn y gwylia Ceidwad Israel dros  
 Yr egwan wyn, dddwg yn ei fynwes lan;  
 Heb hun na hepian arno ddydd na nos;  
 Arweinia'r hen famogiaid yn ei law,  
 A'r praidd i gyd a geidw heb un braw.

DAFYDD.—Mae'n wir, fy nhad, mae'th eiriau  
 grasol, mwyn,

Yn disgyn ar fy nheimlad i fel gw lith—  
 Fel gw lith y wawr ar lysiau'r ardd; ac O  
 Mor adnewyddol ydynt oll, fel mae  
 Fy enaid yn eu gwerthfawrogi'n wir!

A wyddost ti, fy Nhad,  
 Er fod y maes, lle y gwerysyla'r llu,  
 Yn agos im, gerllaw, a'r uchel gain

Fanieri sydd yn chwifo yn y gwynt,  
 A swn yr udgyrn yn adseinio'r graig,  
 Uwch y gwastadedd distaw hwn, a'r holl  
 Philistiaid sydd fel y locustiaid man,  
 O amltra yn y lle; a'm brodyr ar  
 Y maes yn dwyn y waewffon a'r cledd;  
 Na ddarfu imi unwaith adael dy  
 Ddiadell wan, i ofal neb, er mwyn  
 Cael myned yno'i weled ansawdd trefn  
 Y fyddin fawr! Pan glywn i adsain clir  
 Yr udgyrn oll, yn disgyn fel o draw  
 Ar fy ngwrandawgar glust: ti elli wel'd  
 Mai profedigaeth gref i mi oedd bod  
 Yn llonydd yma, heb gael unwaith drem  
 Ar y rhialtwch mawr!

JESSE.—Diau,  
 Ond da y gwnaethost, Dafydd bach, yn wir,  
 Mor ddedwydd ydyw'r deyrnas honno lle,  
 Y mae'r fath wrol wyr all ufuddhau;  
 Ufudd-dod arwain i anrhydedd pur,  
 Ac nid uchelgais fo mewn rhyfyg mawr,  
 Ar aden eryr yn ymgodi'n chwim,  
 I entrych nef, nes byddo gwres yr haul,  
 Yn deifio'r plyf!

DAFYDD.—Ust!  
 Beth yw'r adsain trystfawr yna, Nhad?

JESSE.—Catrodau'r fyddin sydd, mae'n debyg yn  
 Ymsymud yn eu trefn! Ond Dafydd, beth  
 Yw'r cyffro yna sydd yn codi'n awr  
 Mor sydyn yn dy deimlad di? Mae'r sain  
 I'w glywed yn dystewi yn y naut,  
 Ond gwelaf yn dy wedd, y bugail mwyn,  
 Yn colli yn nghymeriad milwr dewr;

Pa ham y fflamia'th lygaid wreichion byw?  
Ni raid i ti gynhyrfu dim!

DAFYDD.—Fy anwyl dad, ai anmhrïodol yw,  
Im' eiddigeddu dros y fyddin fawr?  
Tydi fy nhad, ni ddarfu iti oll,  
Ddim yngan gair am ansawdd trefn y gad,  
Er cymaint mae fy ngalon i yn wir,  
Yn llamu gan bryderus nwyd, a brys  
Am glywed gair o'r hanes ddwys!

JESSE.—Ansïcr yw y dynged eto ar  
Y maes. Rwyf yn arswydo'n awr yn wir,  
Wrth geisio gwan ddyfalu'r modd y trydd  
Y frwydr fawr! O dy frodyr! pa fyd  
A'u dyga hwy? O'r perygl dirfawr sydd  
Yn eu cylchynu hwy! Ac nid yn wir,  
O'u herwydd hwy yn unig, rwy'n barhaus  
Mor llawn o deimlad byw, ond dros yr oll  
O'r llu. Rwy'n teimlo'n wir alarus fod  
Banneri rhyfel yn ymledu cyd,  
Uwch ben fy anwyl enedigol wlad!  
O Salem bur! O Sion deg! Tydi  
Sy'n agos at fy nghalon i! Pa beth  
Yw hyn ond prawf o'r fflangell gyfiawn, drom  
A ddug troseddau dyn i ddisgyn ar  
Ei ben ei hun. Pa dafod byth all draethŭ maint  
Y dinystr daena yn mhob lle. Y wlad  
O'u blaen sydd fel paradwys ddedwydd deg,  
Ond ar eu hol fel tir diffaethwch du!  
Gwlad gerddi gwinwydd, a'r olewydd pur,  
A'r heirdd balasan sy'n garneddi trwm,  
A'r tyrod glan yn llety adar bwn;  
A'r temlau glan i'r dylluanod nos  
Yn nawdd! Gwaed lladdedigion ar y maes,

Ystaenia'r ffrwythydd, wedi mwydo sydd  
Gan dagrau'r weddw a'i hamddifaid blant!

DAFYDD.—Mae'r holl ddarluniad yna yn rhy wir ;  
Ond eto pan y bo iawnderau gwlad,  
Yn cael eu mathru gan y gelyn cas,  
A phawb a garwn fel ein cnawd ein hun,  
A'n tai, a'n tiroedd, a'n hallorau glan,  
Ac enw'r Ion yn destyn cabledd gan  
Yr holl anffyddwyr brwnt, ni ddylai neb,  
Fel llwfrwas, blygu dan bob cam, fy nhad ;  
Yn mhell y bo Merosiaid llwfr o'r fath!  
Nid oes un angel yn y nef ag sydd  
A digon o amynedd, gras, a phwyll,  
I beidio eu melltithio hwy!

JESSE.—Ow Dafydd, Dafydd, beth yw'r geiriau hyn,  
Dywelli'n mhoethder nwyd ?

DAFYDD.—Nid nwyd, fy nhad, ond pur egwyddor ynt !

JESSE.—Rwy'n addef fod gan Ior y nef, yr hwn  
Roes fywyd, nerth, ac yni ynom ni,  
Ei gyfiawn hawl i alw arnom oll,  
Anturio'r bywyd hwnw roes ei hun,  
Pan y dewiso ef ei hun ein galw at  
Y gwaith.

DAFYDD.—Mae'r sylw yna wrth fy modd, fy nhad,  
A dyna'r amcan oedd gan i, mewn rhan ;  
Ond eto mae'n rhy fyr, debygaf fi.  
Mae cyfeillgarwch pur yn galw am  
Aberthu bywyd ar ei ran, y mae'r  
Fath gwllwm calon rhyngof fi a'r dewr  
Jonathan, freiniol, glew, nas gallwn i  
Ddim goddef gwel'd ei gas yn gosod ar  
Ei iawnder ef, heb estyn braich a llaw,

Trwy ganol tân a mwg, a min y cledd  
Er ei amddiffyn ef!

O! mor ddifyrus yr eisteddai ef  
Am amser maith i wrando arnaf fi,  
Yn chwareu'r delyn gyda'r ganfed salm,  
I'w datgan lawer gwaith! Bu'n wylo'n hir,  
Pan welai'i eiddigeddus dad mor wan,  
I'm herlid, pan y lleddfai'm halaw fwyn,  
Yr yspryd drwg, fa'i arno, er ei fraw,  
Pan orfu i mi gefnu ar ei lys  
Rhag peri cynwrf yn y lle, a throi  
Yn ol am Beth'lem bach i dy fy nhad!

JESSE.—Gadawaf di am fynud bach yn awr  
Fy mab.

DAFYDD.—Brysia yn ol, fy anwyl dad!

---

## RHAN II.

### DAFYDD A JESSE.

DAFYDD (*yn ddistaw*), mi wela'r hen bererin Jesse'n  
dod. (*Yn gyhoedd*)

Henffych well, fy anwyl dad, yn ol dy  
Air, tydi a ddaethost.

JESSE.—Mae genyf neges it, fy mab.

DAFYDD.—Wele fi yn barod at dy air.

JESSE.—Neges yw hon, rwy'n sicr a'th foddha  
Fy mab. Fy machgen dos, a brysia hyd  
l faes y frwydr, at y gwersyll draw,  
Yn nyffryn Elah, lle mae'r brenin Saul  
Yn llywio byddin Israel Duw; ie dos,  
A chyfarch yno'th frodyr; gwel eu gwaith;

Ymofyn am eu hynt, ai doeth yw dull  
 Eu hymarweddiad hwy? a chluda draw,  
 Yr ymborth a'r perlyisiau hyn, er eu  
 Cynhaliaeth a'u cysuron hwy; a dwg  
 Y rhoddion hyn i'w cynyg, fel o barch,  
 I flaenor mawr y gad, fel arheg fach,  
 A roir o galon bur, gan wledig wr,  
 O'r fath ag yw ei was, dy dad. Tydi  
 A wyddost am y modd y dylit ti  
 Ddynesu ger ei fron, a thalu moes  
 I wr o'i uchel urddas ef.

DAFYDD.—A gwir lawenydd y cyflawnaf fi  
 Dy archiad oll, fy nhad; fy mrodyr llon,  
 Anerchaf gynta'o neb; ac yna'n mlaen,  
 Af at yr arwr mawr, cadfridog dewr  
 Y fyddin oll. Fath bleser mawr i mi  
 A rydd y neges hon; mae wrth fy modd  
 Fath beth fydd gwel'd y maes, ar llu,  
 A threfn y pebyll oll; y llurig pres,  
 Y waewffon ddur, a holl arfogaeth oer  
 Y mlwyr glew! Ond eto canmil mwy  
 Hyfrydwch a gawn i, pe ba'i i'r fraich  
 Allnog, nerthol hon, i ddial cam  
 Plant Israel Duw, a gwir anrhydedd Ion;  
 Serch costio im fy mywyd, ie, a phe  
 Y collid bywyd un, beth fyddai wrth  
 Waredu bywyd myrdd!

JESSE.—Gochel, fy mab, rhag bod i wychder trefn  
 Y fyddin ddallu d'olwg ieuange di,  
 Fel pe na byddai fawredd gwir mewn dim,  
 Ond buddygoliaeth arfau gwaed; a dim  
 Anrhydedd ar waith heddwch gwlad i neb.



Pan yr edrychi ar y darian gref,  
 Y miswrn gloew, bidog ddur, a'r cledd,  
 Ymochel rhag bychanu'r gwledig waith  
 O wyllo praidd. Yn awr, fy mab, fy mab,  
 Na ato Duw i ti sychedu am  
 Ddyrchafiad dyn ar draul anfoddio Duw !

DAFYDD.— Yn wir  
 Fy nhad, y mae pob gair o'th sylw di  
 Yn disgyn ar fy nheimlad i fel gwllith  
 Yn Hermon, syn dyferu'n esmwyth ar  
 Y llyisiau mân ; ac fel yr enaint per,  
 Ddisygnai gynt ar goryn Aaron fawr,  
 Gan hidlo'n esmwyth ar ei farf a'i en !  
 O fwyned ynt !

JESSE.—Gan hyny, dos fy mab, a Duw dy dad,  
 Yr hwn fu'n nawdd in tadau oll, a'th wir  
 Fendithio ar bob cam !

DAFYDD.—Bore da, fy nhad, a sicr ydyw hyn,  
 Na syrthia gair a ddaeth o'th enau doeth,  
 Heb gael ei gwblhau ; ac nid oes un  
 O'r holl rinweddau sydd fel blagur teg,  
 Yn tyfu arnat ti, na phlenir hwy,  
 Yn ddwfn o fewn fy mynwes i !

JESSE—(*yn ymson wrtho ei hun*).

Aeth Dafydd i'w ymdaith, fy Nuw fyddo'n awr,  
 I'w arwain a'i gadw'n mysg byddin mor fawr,  
 Ni allaf ymfrostio mewn diwrnod ! a phwy  
 All ddwedyd yn sicr, y gwelaf ef mwy.  
 Rwy'n cofio ymweliad y prophwyd a'n ty,  
 Ein Samuel santaidd, a'r weithred a fu,  
 Wrth wrthod Eliab, yr hynaf o'r plant,  
 Mor dal o gorpholaeth, ragorai ar gant.

A dewis ein Dafydd, yr ieuengaf i gyd,  
 A thywallt yr olew ar ei ben ar y pryd,  
 Ac yspryd yr Arglwydd yn disgyn o'r nef,  
 I'w arddel a'i urddo yn was iddo ef.

Roedd Saut, wrth ei ddewis, y tecaf erioed,  
 O'i ysgwydd i fynu y talaf yn bod,  
 Ond eto heb burdeb dybenion i fyw,  
 Nid ef a ddewiswyd gan brophwyd ein Duw.

Yn awr, nid oes genyf ond rhoi fy mab iau,  
 I ofal y nefoedd o hyn i barhau,  
 Fy ngweddi fydd drosto, o hyn hyd y bedd,  
 Rhagluniaeth y nefoedd fo'i darian a'i gledd!

---

### RHAN III.

#### GOLYGFA YN Y GWERSYLL.

##### GOLYGFA YN Y GWERSYLL.

Eliab, Abinadab, Dafydd, ac Abner.

**E**LIAB.—Mor hynod mae y rhyfel hwn,  
 Yn para mewn gohiriad, heb un pen,  
 O unrhyw ochr! Mae'n rhaid i'r pryder mawr  
 Derfynu rywbyrd! Fe fydd raid i un  
 O'r ddwyblaid gwympo cyn bo hir.

**ABIN.**—Y mae rhwysgfawredd yr holl lu sydd yn  
 Gwersyllu tua Dammin draw; ei nerth,  
 Ei rif, ei drefn, arfogaeth, medr a dawn,  
 Yn rhagarwyddo mai'r Philistiaid beilch,  
 Dienwaededig, sydd yn sarnu'r tir,  
 Sy'n gysegredig oll i Juda lan,  
 A fynant eu hewyllys yn cin cwymp,  
 Cyn hir, yn ol fy ofnau i!

ELIAB.—Mae bellach ddeugain niwrnod llawn,  
 Er pan y mae y cawr cabledus blin,  
 Goliah falch, yn herio'n gas, holl lu  
 Ein gwlad. A phwy yn wir, fydd byth mor ffol  
 A beiddio ei gyfarfod ef, a'r fath  
 Anghyfartaledd rhyngddynt? A phwy fydd  
 Mor rhyfygus ac mor wallgo byth  
 A do'd i'r maes i gwrdd ag ef?

ABIN.—Gwallgofrwydd, ac nid dewrder fyddai i  
 Un dyn, i dderbyn her gan wr o'i fath!  
 Mae'r adeg iddo ddod yn agoshau,  
 I adnewyddu ei her!

ELIAB.—Mawr yr wyf yn synnu, O fy mrawd,  
 Nad oes un gair o newydd eto'n do'd  
 Oddiwrth ein tad, i lonni'n meddwl prudd;  
 Yn nghanol llawnder ac esmwythder mae  
 Efe, yn mro ei heddwch, yn mwynhau  
 Ei hun, heb feddwl nemawr am ein holl  
 Galedi ni! Rhyfedd na chofiai am  
 Ei feibion. Ond, Ha, aros, gwelaf draw  
 Yn do'd ar frys, ei fab ieuengaf; gwr  
 Ag sydd yn wrthrych ei hoff anwes ef.

ABIN.—Ha, Dafydd, ai tydi sydd yna'n awr?  
 O ba le daethost ti? ymwelydd heb  
 Ei ddisgwyl, wedi do'd i'n plith!

ELIAB.—Ysbiwr yw, a ddaeth i wyllo ar  
 Ein holl agweddau a'n gweithredoedd ni,  
 A sobrwydd plentyn gwan, di farf, yn llawn  
 O ffug ddoethineb; i geisio troi pob  
 Gair yn wawd, o throï pob gweithred fo  
 Ddiniwaid, yn rhyw drosedd mawr.

## DYFODIAD DAFYDD.

**DAFYDD.**—Henffych well fy anwyl frodyr dewr !

**ELIAB.**—Pa beth yw ystyr dy gyfarchiad hwn,  
Gwir gariad, ynte coeglyd wawd ?

**DAFYDD.**—O ! cariad pur, mor beraroglus ag  
Yw'r enaint peraidd a ddisgyna ar  
Hyd wisg offeriaid Ion, dan urdd y nef !  
Mor anwyl, O fy mrodyr, yw y rhai  
Y bo brawdgarwch pur yn llonni pob  
Cymdeithas hoff ; a'r fath a deimlaf fi,  
Yn llenwi'n awr fy mynwes frwd, ar eich  
Dynesiad chwi !

**ELIAB.**—Er hyny, nid oes unrhyw angen am  
Yr araith ddoniol hon, na'r olwg ddwys,  
Na'r ddichell o ryw ffug sancteiddrwydd, sydd  
Yn cael ei arfer, er gwan-ddallu'n hawdd  
Dy dad hygoelus. Addef di'n awr,  
Beth yw dy neges hon ? Ai er boddhau  
Dy falchder mawr, ai ynte ymgais am  
Rodiana gwag, i geisio pleser nad  
Yw gyfreithlon ; ac ai dy amcan yw  
Dod fel ysbiwr ar weithredoedd dy  
Gyd-frodyr hyn ? Pa le y mae y praidd  
A'r deadellau oedd dan d'ofal di,  
Mwy cymwys i dy oed a'th wendid llaith,  
Na chrwydro y ffordd hon ! Wrth reswm i  
Ba beth y daethost ar dy hynt ?

**DAFYDD.**—Beth a wnaethym i yn awr ?  
Onid oes achos ? Oes y mae, Pa beth  
Yw'r anfoddlonrwydd sydd yn cyneu'n fflam  
O fewn dy lygaid dig, fy anwyl frawd ?

Pa beth yw'r coegni angharedig hwn?  
 Nid segur bleser ddim; nid i foddhau  
 Fy llygaid daethym i; na syllu ar  
 Drefniadau gorwych rhyfel; ac nid er  
 Cael boddio'r glust â chwedlau gweigion chwaith,  
 Y daethym i; ond er cael dangos mai  
 Eich cywir frawd wyf fi; a hefyd dwyn  
 Y rhoddion hyn i chwi oddiwrth ein tad  
 Oedranus, yn ei ofal mawr—y fath  
 Ag sydd gan wledig wr o'i alwad ef!  
 Dywedwch im p'le mae'n gweryllu'n awr,  
 Arweinydd mawr y gad!

ELIAB.—Pa ham yr holi ddim yn ei gylch?  
 Ni waeth i ti pa le y bo. Ond gwel  
 Ardderchog Abner yn neshau.

DAFYDD.— Abner, gyd a'th genad di,  
 Negesydd ydwyf dros dy was, fy nhad,  
 I ddwyn y rhoddion syml hyn i ti,  
 Y fath ag sydd yn meddiant bugail praidd,  
 Amaethwr bychan yn y wlad; maent fel  
 Dangosiad it, o deimlad gonest pur!

ABNER.—Mawr ddiolch it, a chyda phleser mawr,  
 Derbyniaf o dy law y rhoddion hyn,  
 Sy'n werthfawr iawn i ni!

DAFYDD.—Er mor ieuenged wyf, heb brofi fawr  
 Ar rwysg y byd, na threfn byddinoedd, fel  
 A welaf yma'n awr; er hyny mae  
 Pob sain, pob golwg ger fy mron, yn fyw  
 Yn tanio fy eiddigedd i.  
 Pa beth yw'r sain ddisgyna'n rhyfedd ar  
 Fy nghlust o draw? (Sain udgyrn.)

**ABNER.**— Cawr y Philistiaid sydd  
Yn hyf gyhoeddi yma'i her, trwy ei  
Ragflaenydd ar y maes. Bob bore mae  
Yn adnewyddu ei herfeiddiad i'n  
Byddinoedd ni!

**DAFYDD.**— Pa gawr?  
A phwy yw ef? Rho wybod im, mewn gair?

**ELIAB.**—Pa ham yr holi di? i ddangos dy  
Ffolineb yma'n awr? ac hefyd dwyn  
Cywilydd arnom ni? Pa'm na baet ti  
Yn aros gyda'r praidd, a'r gorchwyl sydd  
Yn fwy cydweddol a'th blentynrwydd di,  
Na holi am y rhyfel danlyd hon?

**DAFYDD.**—Yn ol dy ddull yn awr, ni bydd i mi  
Dy ateb, O fy mrawd; ataliawf mwy,  
Mae'r hwn a lywodraetho'i yspryd, yn  
Fwy dyn na'r hwn enillo ddinas gref:  
Ha! dyna'r udgyrn eto! Dywed im  
Ardderchog Abner, pwy, a pheth, yn awr,  
Yw'r cawr Philistiaid hwn, sydd yn parhau  
I herio Israel Duw?

**ABNER.**—Gwnaf, fy machgen pert, mae'th wedd  
Yn denu fy serchawgrwydd atat ti;  
Mae dewrder yn dy dal: mae meddwl byw  
Yn eistedd ar dy rudd. Dywedai'r oll  
I ti, mewn gair,

**DAFYDD.**—Can diolch, Abner ddewr, i ti!

**ABNER.**— Mae'r cawr galluog hwn,  
Dair gwaith bob dydd, fel cynrychiolydd mawr  
Ei fyddin gref, yn dod i herio ein  
Byddinoedd ni. Mae'n un o feib

Y tylwyth cewri, a adwaena pawb,  
 Sef meibion Anac gynt; Goliah  
 Yw ei enw ef; ac mae ei enw'n wir  
 Yn ddychryn i bob gwlad a thref. Fe saif  
 Mor dal uwchlaw y fyddin oll, fel mae  
 I'w ganfod fel rhyw'glochdy mawr, o bell,  
 Yn nghanol teios mân y dref. Fe saif  
 Dros lawn chwe chyfudd yn ei daldra syth!  
 Mae'r helm o bres, sy'n uchel ar ei ben,  
 Yn addurnedig gyda phluen fawr  
 Yr estrys can, dros lathen lawn o hyd!  
 Mor nerthol yw ei freichiau cnodiog, braisg,  
 Fel gyda'r hawsder mwyaf y gall ef  
 Orthrechu llu o'r dynion cryfa geir  
 Yn mysg ein llu! Ei lurig emawg sydd  
 Yn dyn blethedig am ei gorph i gyd,  
 Fel na all neb â blaen ei finiog gledd  
 Byth gyrhaedd at ei gnawd. Ond beth ar hyn  
 Ddywedwn am ei waewffon ag sydd  
 Yn ail i garfan gwehydd o ran maint,  
 A wnaed o galon coed y dderwen braff,  
 A'r bicell ddeufin ddur, a dreiddia drwy  
 Bob gwrthrych ddel ger bron. Ei yswain ef  
 O'i flaen, gyhoedda'i her, i'n gwawdio ni,  
 Gan alw am ryw un o'n plith i ddo'd  
 I gwrdd ag ef, mewn ymdrech rhwng y ddau,  
 A law-law, mewn un frwydr fawr; a hon  
 I benderfynu tynged un o'r ddwy  
 Gâd nerthol wedi hyny byth!

DAFYDD.—Dy genad eto unwaith, Abner deg;—  
 A pheth yw natur y telerau sydd  
 Yn ei herfeiddiad ef?

**ABNER.**—Mae'n amgylchynu ein terfynau hyd  
 Holl ddyffryn Elah. Bloeddia'r gwron sydd  
 Yn cerdded fel ei ringyll ef, ei her  
 Feunyddiol mewn rhyw araith, ddoniol, ffraeth,  
 Yn llawn arabedd, i'n sarhau; yr hon  
 Sydd gan ei wlad fel defod rhyfel-her;  
 Ac yna'r cawr ei hun, a'i lais ag sydd  
 Fel taran gref, adseinia'r dyffryn oll,  
 Gan adnewyddu'r her yn uchel iawn;  
 "Pa ham," medd ef, "wyr Israel yn awr,  
 Yr oedwch—llechwch yn eich llwfrdra hwn  
 Dewiswch i chwi wr yn awr a ddel  
 I'm cwrdd? Pa ham na fynech derfyn ar  
 Y gad ar fyr? Ai chwi yw gweision Saul?  
 Dewch allan ynte yn ei enw ef:  
 Mi wyf ddewisol wr galluog deyrn  
 Philistia fawr. Dewised Saul ei wr,  
 A boed yr orchest genedlaethol hon  
 Yn derfyn ar y ddadl byth. Os chwi,  
 A'ch cawr, enilla'r dydd, yna nyni  
 A fyddwn yn gaethweision byth i chwi:  
 Ond os myfi ar faes y frwydr fydd  
 Orchfygwr teg y cawr ddewisoch chwi,  
 Yna chwychwi a fyddwch weision byth  
 I ni. Ai nid yw hyn yn deg?"

**DAFYDD.**—A pheth a wneir i'r sawl orchfygo'n deg  
 Y cawr cableddus hwn?

**ABNER.**—Efe a dderbyn y fath wobrau ag  
 A fydd ddigonol er cyffroi pob dyn,  
 A fedd alluoedd at y gad, i ddo'd  
 Yn mlaen.

**DAFYDD.**—Atolwg, beth a fydd y gwobrau hyn?



**ABNER.**—Mae'r brenhin Saul yn cyhoedd addaw i'r  
 Gorchestol wron a orchfyga hwn,  
 Ei godi ef a'i deulu'n uchel iawn :  
 Hwyr fyddant byth yn rhydd oddiwrth bob treth  
 Ac ardreth yn eu gwlad. Dyrchefir ef  
 Ei hun yn wr deheulaw'r Brenhin Saul,  
 Ni bydd ddim llai na daw i'r Brenhin, a'n  
 Glan Dwysoges ni roir iddo ef  
 Fel ei gydmares oes!

**DAFYDD.**—Pa beth? a gaiff y sawl orchfygo hwn  
 Y brydferth Michal iddo'n wraig? Mewn gwir,  
 Ai nid oes neb, er hyn i gyd, hyd hyn  
 Wedi derbyn y cynhygiad?

**ABNER.**— Nac oes neb!

**DAFYDD.**—Can diolch iti eto, Abner deg,  
 Am roddi clust i'm gwrando i cyhyd:—  
 Ac O, na allwn ofyn eto air  
 Yn mhellach yn yr achos hwn!

**ABNER.**— Llefara, fachgen dewr,  
 A thraetha i'm dy feddwl oll, y mae  
 Rhyw awydd ynof i'th foddhau, a gwneud  
 Dy gais yn llawn.

**DAFYDD.**—O Abner fwyn, arweinia di dy was  
 Yn awr i wyddfod Saul ein Brenhin ni;  
 Mae achos eto deilwng gyfiawnha  
 Yr holl galonrwydd hwn; cei eto wel'd!  
 Na lwfrhaed calon neb yn awr  
 O achos y Philistiad ffrostgar hwn,  
 Dy was a ymladd gydag ef!

**ELIAB.**—Taw glebryn hyf, a'th faldorrd ffol!

ABNER.—Rwyf yn dy gym'ryd ar dy air, fy ngwas;  
Arweiniaf di i babell freiniol Saul:  
Mae ef yn disgwyl gyda phryder dwys,  
Am ryw un ddelo'i ateb her y cawr.

DAFYDD.—Ardderchog Abner, diolch byth i ti;  
Y gwir ddywedai'n ddistaw wrth dy glust;  
Mae 'nghalon i yn llamu yn fy mron,  
O wir lawenydd am y gobaith byw,  
A'r mawr anrhydedd o fy rhesu ar  
Groniclau'n cenedl enwog ni, am byth,  
Fel gwladwr da, a drechai ar y maes  
Brif elyn Israel Duw!

---

#### RHAN IV.

SAUL.—(mewn ymson, wrtho'i hun, yn ei babell.)

A I tybaid fod yn rhywle ar wyneb daear gron,  
Un dyn sy mor annedwydd a mi y fynudhon,  
Mae'r nefoedd fel yn duo yn gaddug uwch fy mhen  
A'r ddaear yn fy ngwrthod, a'm herlid gyda sen.

Gobeithiais unwaith weled, o'm teulu i fy hun,  
Ryw gawr yn codi'n filwr, a dro'i yn enwog ddyn,  
Bu Jonathan un diwrnod, a'r fuddygoliaeth fawr,  
Yn addaw i mi gysur, ond nid yw felly'n awr.

Ei arbed yn Bethafen, ar ol ei erchyll frad,  
Rhag ofn y bobl wnaethym, er hyn ni pharchai'i  
dad;  
Enillodd gan y werin, mewn rhyw boblogrwydd  
ffol,  
Dderchafiad am yr adeg, a dro'dd yn siom yu ol.

Mor esmwyth' buasai'r goron, yn gorphwys ar fy  
 ael,  
 Ac yntau fel olynedd yn aros dydd i'w chael;  
 Rwy'n teimlo fel ysglyfaeth, rhwng dannedd llewod  
 cas,  
 Gan her y cawr Goliah, sy'n para'i gadw'r maes.

ABNER.— Henffych well, ardderchog Saul,  
 Ymddiosg 'nawr o'th holl feddyliau dwys,  
 Mae angen am dy arweinyddiad di,  
 I drefn y wlad a'r fyddin fawr!

SAUL.—Dynesa'n mlaen, Abner, gadfridog dewr,  
 A gwrando ar fy nheimlad prudd yn cael  
 Ei dywallt oll i ti; mae gofid am  
 Fy holl anffodion i, yn llethu'n llwyr  
 Fy yspryd llesg hyd eitha'r llwch i lawr!  
 O na ba'i arnaf megis agay bu  
 Mewn syndod teimlad byw, pan holai pawb,  
 A ydyw 'r ienanc amhrofiadol Saul  
 Yn mysg prophwydi sanctaidd Ion? y pryd  
 Y bu fy muddygoliaeth uchel iawn  
 Yn ninistr Amalec; ac y bu  
 Fy enw yn dderbyniol dros y byd;  
 Yn awr fy mlin elynion ymfawrhant,  
 A gorfoleddant yn fy nghwmp! yn awr,  
 Myfi, myfi nid ydwyf ddim; a gwaeth  
 Na hyny'n wir; yr wyf yn llai na dim!"

ABNER.—O Saul, fy mrenin, ymgysura'n awr  
 Mi ddaethym yn genhadwr atat ti,  
 A newydd da yn wir!

SAUL.—Fy newr garenydd, pa ddaioni ddwg  
 Dy holl newyddion heddyw i mi?  
 Ni all un enaid fo'n lluddedig lwyg

Gan drallod, wrando sain caniadau per,  
 Na'r holl newyddion goreu fo :—Pa les  
 A wna'r newyddion goreu oll i mi?  
 Pa newydd allai lonni meddwl prudd.  
 Gan ofid ag sydd ail i angau'i hun.  
 Tra bo y cawr Goliah yn ei rwysg,  
 Yn herio ein byddinoedd ni bob dydd,  
 Gan dafu maneg haiarn baidd i lawr.  
 A neb yn do'd i'w chodi yn ein plith,  
 Nac i'w gyfarfod ar y maes!

ABNER.—Y mae un wedi derbyn yr her!

SAUL.—Gan bwy? pa fodd? pa bryd? pa le? y bu  
 I'r her arswydol gael ei derbyn? pa  
 Gawr? pa wron sydd? pwy'n fuddygwr ddaeth  
 Yn mlaen? Heb oedi Abner, tyr'd a'r cawr,  
 A'r newydd hefyd oll i mi!

ABNER.—Nid cawr! nid milwr! nid tywysog chwaith,  
 Ond bugail defaid yw—rhyw herlod glan  
 Ei bryd, sy'n dod yn mlaen!

SAUL.—Ow, Abner, Abner, fy nghadfridog dewr,  
 Ai hyd yna daethost ti? yn wir  
 Yr wy'n synnu atat yn meddwl am  
 Fy esmwythau â chwedlau plant, neu â  
 Breuddwydion gwyrach; ai i'm darostwng i  
 Yn is y daeth y chwedl hon? Ow, ow!  
 Ond eto'i enw do'd—ei enw dod!  
 Bugeilwas i gyfarfod enw g gawr  
 Philistia gadarn, ar y gwaedlyd faes?  
 Disgwyliwn amgen genyt ti na hyn;  
 Ow Abner, Ow!

ABNER.—Ond rhynged bodd, yn awr, er hyn i ti  
 Fy ngwando, frenin Saul! A ydyw nerth

Yn do'd o urddas dyn? a gallu i  
 Ragori'n perthyn i ryw ach? A gwir  
 Anrhydedd yn cyfodi o ryw radd?  
 Os felly, p'odd y codwyd enwog Saul  
 Y Benjamiad ar ei orseddfaingc?  
 Pa fodd y daeth i wisgo'r goron ddrud,  
 A dal teyrn-wialen urdd ar sedd mor fawr?  
 Ai ni chyfododd rhai, enwocaf fu  
 O'r bwth diolwg, ac o'r aelwyd lom?

SAUL.—Ond pwy yw y glaslanc hwn?

ABNER.—Mae'n sefyll wrth y drws, a chyda gair  
 Fe ddaw i mewn. Ei wedd a dd'wed i ti  
 Ei fod yn rhywun!

SAUL.—Dwg, Abner, y llencyn ger bron.

(SAUL, yn ddistaw wrtho ei hun.)

Mae Abner yn llygadog iawn; mae rhywbeth  
 meddal ynddo,  
 Mae gan y llencyn bertrwydd dawn, a golwg  
 hawddgar arno,  
 Gwedi'i ddallu 'n canu'i glod, mae rhywun, mi  
 feddyliwn.  
 Ond dyma'r llefnyn teg yn do'd, beth bellach  
 fydd y byrdwn?

ABNER A DAFYDD.

ABNER.—Wele y gwr ieuanc o'th flaen.

DAFYDD.—Henffych well, fy mrenin Saul!

ABNER.—Dyma dy benrhyswr, fy mrenin Saul!

SAUL.—Ai ti, fy ngwesyn, yw y gwron dewr,  
 A feiddia gwrdd Goliah nerthol ar  
 Y maes, Mab Anac gawr?

DAFYDD.—Os felly rhynga bodd mawrhydi Saul,  
Fy mrenin.

SAUL.—Does bosibl! syndod byth! Pa beth,  
mewn gwir  
A barodd iti feddwl unwaith am fath waith?  
Heb wisgo cledd? heb gario gwaewffon,  
Na dwyn caledi ar y maes erioed?

DAFYDD.—Nid wyf brofiadol mewn arfogaeth ddu,  
Y cledd, na'r waew lem, na'r llurig pres;  
Nid wyf ddysgedig mewn celfyddyd aer,  
Mewn ymosodiad ar na gwlad na thref;  
Ond eto fy eiddigedd sydd yn fyw  
Dros Israel, dros fy mrenin, a fy ngwlad!

SAUL.—(Gan edrych yn syn arno.)

Ond dyner lanc, ni feddi enw am  
Un orchest fawr, ac ni wyr neb drwy'r wlad,  
Am unrhyw waith o'th eiddo, gyfiawnha  
I mi dy ddewis di i'r orchest fawr.

DAFYDD.—Gwir, enwog deyrn, ni feddaf enw'n mysg  
Cenedloedd byd, nac yn ngwlad Juda chwaith,  
Er hyny oll, ni phrawf y ffaith nad all,  
Gorchestion ddo'd o le dinod. Pwy fyth  
A goeliai ar yr olwg gyntaf oll,  
Wrth wel'd bwrlymiad gwan y ffrwd ar ael  
Y bryn, yn cychwyn tua'r ddol, y do'i  
Yn afon gref, a nofiai 'r llongau fel  
Y plyf, ar ei gwyneb! Pwy gredai do'i  
Y fesen fach yn dderwen gref cyn hir!  
Bu Saul ei hun, a gwylder mynwn ddweud,  
Yn faban bach, yr hwn sy'n awr yn uwch  
O'i ysgwydd gref na neb o fewn y wlad!

Fy nghais yn gywir sydd am ddial cam  
 Fy mrodyr, ar yr hwn a feiddia yn  
 Ei rwysg roi cabledd ar yr Ion, a'i blant!

ABNER.—Da y dywedi'r oll: campus yn wir!

SAUL.—Rwyf yn mawrhau dy yspryd gwrol di,  
 Fy machgen pert; ond er hyn oll, pa fodd  
 Y gallwn i ymddiried y fath waith,  
 Yn llaw un herlod ieuanc mor ddi draw?  
 Fe fyddai golwg ar y ffrydian gwaed  
 Fo ar y maes yn ddigon er dy dranc,  
 A'r gruddiau gwridog sydd yn fflamio'n awr  
 Yn fuan aent mor llwyd a'r calch!

DAFYDD.—Nid felly chwaith, O frenin Saul!  
 Er nad ystaeniwyd llaw dy was erioed  
 A dynol waed; ond eto'r bugail wyr  
 Yn dda pa beth yw tywallt gwaed;  
 Y llew a'r arth, pan wyliai ar y praidd,  
 A ddygent oen oddiwrth ei fam, a'th was  
 A neidiai ag ysbonc ar war y llew,  
 A chydiwn yn ei fwng, a chyda grym  
 Un dyrnod ar ei ben, y lladdwn ef!  
 A'r arth, o'r coed, un pryd, a wasgai'n dyn,  
 A'i phalfau am un ddafad war, pan do'i  
 Dy was i'w hachub, ac a wasgai'r arth,  
 Nes oedd ei hasen gref yn clecian, pan  
 Rown ddyrnod arni nes y cwmpai i lawr  
 Yn gelain wrth fy nhraed! A'r un yn llwyr  
 Fydd tynged y cableddus gawr, os caf  
 Y fraint o'th law o'm dewis er ei gwrdd;  
 Gwnaf ymfrost wag Philistia falch  
 Mor ddistaw â gwaelodion bedd! Ein Duw  
 A geidw'th was, tra y symuda ef  
 Y gwarth oddiar ein gwlad!

SAUL.—Gwna, fe wna! Duw yn rhwydd i ti!  
 Dos ymaith tua'r maes, y gwron dewr,  
 Yn dy rymusdra hwn, ti gaiff y dydd!  
 A'th Ior, a'th wnelo 'n fwy na'r cawr, na neb  
 A fu o'th flaen. Dy enw lanwo'r wlad,  
 Fel Samson gynt pan laddai lew, ac o'i  
 Ysgerbwd tynai fêl. Fel cynllun o'r  
 Fuddygol gad yw'r hanes am y llew  
 A leddaist tithau ar y maes!

DAFYDD.—Can mil o ddiolchiadau, Saul, i ti!

SAUL.—Dos Abner, gwisg ef a'm harfogaeth i  
 Yn barod at y gad, y waew, a'r helm,  
 A'r dariau gref, i'w ddyogelu'n llawn,  
 Y llurig pleth, a'm cledd profedig i  
 Sy'n finiog fel yr ellyn llym!

DAFYDD YN CAEL EI WISGO.

DAFYDD.—Atolwg, deyrn, yn esgusodol cymer fi,  
 Ni phrofodd yr aelodau nerthol hyn  
 Y fath arfogaeth: rhwystr ynt i mi:  
 Y cledd yn unig wisgaf.

SAUL.—Dos dithau'n hollol wrth dy drefn dy hun,  
 Dy gleddyf a dy Ior a'th geidw di!

## RHAN V.

Parotoi at Yr Ymladdfa.

Dafydd yn penlinio cyn cychwyn.

( ) DDUW fy nhadau, cymorth fi, bydd immi heddyw'n  
 darian,  
 Ymddiried ynot rwyf am nerth, a phob ymadferth  
 weithian.



Dysg fi fy Ior, heb saeth, heb gledd, a'm bysedd  
i ryfela,  
Un orchest fythol wnafl yn awr yn nghwmp y cawr  
Goliah.

Dy nerth i Samson gynt fu'n blaid, a'r llu Philis-  
tiaid laddai,  
Pan dynai holl golofnau'u sedd, yn garnedd am eu  
penau.  
Os ti fy Nuw fydd immi'n blaid, fy enaid rof i'th  
geisio,  
A thi dy hun a gaiff y clod, tra'r nef yn bod i'w  
seinio.

DAFYDD, ELIAB, YR ISRAELIAID, &c.

ELIAB.—Mae'n syndod, dy haerllugrwydd gwallgo  
di!

Pan feiddiai hogyn difarf o dy fath,  
Ymwithio'n hyf i wydd y brenin Saul,  
Ac yno ddangos dy ynfydrwydd gwag,  
Wfft fyth ith ryfyg! O'r fath warth!

DAFYDD.—Na fydd mor llym, fy mrawd, ond cofia  
hyn,

Mewn adnod ddysgwyd inni gan ein tad,  
"Yr hwn a ofno'r Arglwydd Ior, a saif  
Ger bron breninoedd yn y llys, heb ofn,  
Heb ddychryn, ac heb g'wilydd chwaith."

ELIAB.—Yn enw rheswn, dywed beth,  
Ai breuddwyd barodd iti'n wallgo wyllt,  
Ryfygu meddwl unwaith fyn'd i'r maes,  
I ymladd ornest gyda'r cawr ag sydd  
Yn ddychryn byd, a hyny law yn llaw?

DAFYDD.— Dyna fy nymuniad i,  
 Bob mynudd, rwy'n awyddu mwy am wel'd  
 Yr adeg i'w gyfarfod!

ELIAB.—Dos adref, rhag dy g'wilydd, dos ar frys,  
 Na thyn mor dinystr bythol ar dy ben!  
 Meddylia beth a ddaw o'th dad ag sydd  
 Fel wedi myn'd yn haner hurt yn ol  
 Yn nyddiau'i henaint pwl, a'th gwmni gwag,  
 Mewn gwan fwythfoddiad o dy ryfyg di;  
 Pan wel dy siaced lwyd, yn goch a'th waed,  
 Fe deflir ei benwyni lawr i'r bedd,  
 Fel gofid Jacob gynt, pan welai ef  
 Wisg Joseph yn ei gwaed, a mawr dristai,  
 Am dano ef. A dywed im pa beth  
 Yw'r gloew addurn hwn a wisgi'n llaes,  
 Mor ddiles wrth dy glun?

DAFYDD.—Rhodd y brenin ydyw! Ond digon gwir  
 Nid yw'n briodol arf i mi; nid ar  
 Y cledd na'r darian, mae fy hyder i;  
 Na ddweded neb im' unwaith bwysio ar  
 Un fraich o gnawd, nac arfau dyn,  
 Ond ar yr lor, fy Hollalluog Dduw,  
 Fy holl ymddiried sydd. Dyma y cledd  
 I'r neb ddewiso'm teyrn!

ELIAB.—Mi wela'n awr dy fod er gwaetha pawb  
 Yn mynnu llunio angau'i ti dy hun.

DAFYDD.—Beth yw angau? A ydyw angau mor  
 Ofnadwy fel y dylai dyn osgoi  
 Dyledswydd rhag ei ofn. Pa un yn awr,  
 Ai bywyd dyn ai mawredd enw Duw  
 Ydyw y pwysicaf? Os geilw Ior  
 Un dyn i farw dros ei enw ef,

Anrhydedd fyddai marw dan y fath  
Dderchafiad!

ELIAB.—Ust! clyw y sain, mae'r lluoedd yn nesau!

DAFYDD.—Mae'r cawr yn do'd yn sicr; ni welaf ef!  
Ond clywaf gamrau'r gwr yn trystio ar  
Y maes, nes siglo'r llawr.

ELIAB.—Gwel ei darian gref, a gludir gan  
Y swyddwr gwych o'i flaen.

DAFYDD.—Gwelaf, fel lloer yn llawn, neu olwyn  
men;

Ah! 'n ara' nawr, mi wela'r cawr ei hun,  
Fel mynydd yn ymsymud o fy mlaen,  
Ac wedi'i gylchio gyda phres a dur!

ELIAB.—Oes arnat ti ddim arswyd, Dafydd?

DAFYDD.— Nac oes ddim!

Eliab (yn myned o'r tu cefn i Dafydd.)

Pa fodd mae hyn? Ai nid oes arnat ofn?  
Nid wyt yn crynu dim; mae'th rudd yn llon,  
Mae'th lygaid yn disgleirio i barhau;  
Ti ymddangosi mewn perffeithrwydd pwyll,—  
A wyt ti'n teimlo arswyd ddim?

DAFYDD.—Nid yw ei faint yn cyffro dim,  
Na pharch, nac ofn, o fewn fy mynwes i,  
Rw'y'n barod i'w gyfarfod ef.

ELIAB.—Mae'n dod yn nes, yn nes o hyd!—

DAFYDD.—Goreu yn y byd!—

ELIAB.—Rhyfedd atst ti, Dafydd!—

DAFYDD.—Paid a rhyfeddu dim.—

ELIAB.—Wel, ffarwel i ti byth; ni fynni di  
Un cyngor, gwelaf mwy. Rhaid i mi ffoi

I ddiogelu f'ainioes i fy hun!  
 Ffarwel eto Dafydd, am byth i ti,  
 Ni chaf dy weled mwy yn fyw!

---

RHAN VI.

GOLIAH yn nesau, yn ei gyflawn arfogaeth. Un yn dwyn y darian oi flaen. Y ddwy fyddin yn cymeryd eu sefyllfa, y naill ochr a'r llall.  
 Cenhadwr yn cael ei anfon, i olwg byddin y Philistiaid, gyda Baner i ddangos fod yr Her wedi cael ei derbyn.

GOLIAH.—Pa le y mae yr enwog wr a feiddia'n awr  
 Dderbyn yr her, gan benaf wron cād,  
 Sydd dros Philistia fawr yn dod i'r maes?  
 Pa frenin yw? pa gampwr sydd mor fawr,  
 A laddodd ar y maes, ei filoedd, er  
 Cael enw iddo'i hun? Deued yn mlaen!  
 A ydyw ef yn gwisgo arfau cawr  
 Orchfygodd ef? Pa le mae'r gwron hwn,  
 Anturia ddioddef pwys y waew hon?  
 Rwy'n awr, yn wir, bron cenfigenu wrth  
 Y fath anrhydedd! Cael cwympe o dan  
 Ddyrnod un o feibion Anac! Mae'n wir,  
 Esmwytha'r clod farwolaeth iddo'n awr.  
 Tyr'd chwyth yr udgorn mawr, genhadwr dewr!

DAFYDD.—Gwel dy elyn ger dy fron!

GOLIAH.—Na welaf fi; pa le y mae ef?

DAFYDD.—Gwel, dyma ef.

GOLIAH.—Pa le? Cyfeiria'm golwg ato ef?  
 Ni welaf fi ddim tebyg i'r fath un.

DAFYDD.—Gweli'n burion, dyma fi.

GOLIAH.—Pwy-pwy? Nid wyf yn arfer chwareu plant,  
Dangos y cawr i mi.

DAFYDD.—Rwyf yma'n barod ger dy fron, gwel fi  
Yn awr; mae'n ofer it dy goegni yn  
Y fythol awr.

GOLIAH.—Pwy, pwy, ni allaf fi byth feddwl am  
Godi troed i sathru chwanen.

DAFYDD.—Mae'r awr benodol wedi dod,  
Mae'n hollol ofer iti geisio mwyach droi,  
A thafu'r adeg heibio'n hwy.

GOLIAH.—Nid oedi'r wyf, ond gofyn pwy, o'r holl  
Lu arfog ger fy mron, yw'r cawr y sydd  
Wedi ei nodi i dderbyn genyf fi  
Anrhydedd fy angeuol ddwrn. Na, na,  
Ni allaf fi ddim cellwair chwaneg â  
Y peth y sydd uwchlaw bechgynach o  
Dy eilydd di i'w trafod! Chwyth eto'n iawn  
Genhadwr, fel y delo'r cawr yn mlaen!

DAFYDD.—Mae'r brenin wedi f'ethol i.

GOLIAH.—Tydi, tydi, wybedyn gwael, tydi,  
Yn enw Dagon fawr, mae'n ormod bri  
I'th fath gael derbyn dy angeuol gwymp  
Gan benaeth gwlad Philistia. Adref dos,  
Di herlod glas, i gol dy fam; na cho'd  
Fy nhymer i dy rwygo yn y lle.

DAFYDD.—Rwyf yn dy herio'nawr, er dy dduw gau;  
Rwyf yn dy herio'n deg yn enw Ior.  
Gan na chaf dderbyn genyt ti dy her,  
Rwyf fi'n dy herio di y munud hwn  
Yn enw Duw fy nhadau'r hwn a all

Fy nerthu'n awr i ddial am y cam  
 A gafodd Israel gan Philistia falch.  
 Na lecha'n hwy tu cefn i ymffrost gwag,  
 I oedi amser, tyr'd yn mlaen.

GOLIAH.—O bryfyn gwael y llwch! meddyliais i  
 A'r olwg gyntaf, d'arbed yma drwy  
 Dy anog i dosturio wrthyt ti  
 Dy hun, ond am dy ddirmyg ar fy nuw,  
 Ni chei fynd o'm gafael. Mi luchia'n awr  
 Dy holl weddillion dirmygedig di,  
 Yn fyrdd o ddarnau hyd y nen, yn fwyd  
 I'r holl eryrod sydd yn gwibio am  
 Dy gelain uwch dy ben.

DAFYDD.—Wel bellach a dy ymffrost, taw;  
 Cofia'r modd y llwyr ddinystrodd Samson chwi,  
 A'ch holl arglwyddi gyda'i nerth ei hun,  
 Pan y gafaelai gyda'i freichiau braisg  
 Yn mhraff golofnau yr adeilad fawr,  
 Nes claddai'r cyfan oll yn garnedd drwch  
 Dan lenni bythol yr un bedd!

GOLIAH.—Ysgogyn ffol, a wyddost ddim  
 Am frwydr fawr Ebenezer? pan ddo'i  
 Eich byddin oll i'r maes, a'r tegan ffol  
 A elwid genych "Arch," mewn ymffrost a  
 Rhialtwch mawr, a'r modd y bu i'm braich  
 Ddinystro'ch cadfridogion goreu oll,  
 A rhifo Hophni a Phineas i'r llwch,  
 Yn mysg y lladdedigion?

DAFYDD.—O gwn yn burion, am yr hanes oll,  
 A chwaneg gyda hyn; a'r modd y bu  
 I Dagon dlawd i gwympo'n ddarnau ar  
 Y llawr, o flaen yr arch!

GOLIAH.—Celwydd bob gair; dim chwaneg o dy sen,

Ni allaf oddef dy sarhad yn hwy :  
 Gwel yma'r waew hon; o gylch ei charn,  
 Y troaf fi gudynau gwallt dy ben,  
 I'th luchio'n ddarnau man hyd uchder nef;  
 Myfi ath fala'n friwsion brau, fel na  
 Bo werth i ferched Juda gasglu'r oll  
 O'r darnau man, yn eu barclodiau'n llwyr,  
 I'w claddu mewn un bedd. A wyt ti ddim  
 Yn dechreu dychryn ?

DAFYDD.—Nid yw dy eiriau gweigion oll  
 Angen chwibaniad segur awel wynt  
 Yn nhwll y clo!

GOLIAH.—Boed holl felltithion yr holl dduwiau sydd  
 Yn nawdd Philistia i ddisgyn ar dy ben!

DAFYDD.—Gan hyny tyr'd yn mlaen, heb oedi'n hwy ;  
 Ti wyt yn dod âth gledd, â'th waew ddur,  
 A minau gyda ffydd yn nerth fy Nuw,  
 A dim ond ffon, a phump o gerig glan  
 A godais oddiar lan yr afon draw,  
 Yn awr i'r prawf, rwyf yn dy herio di!

GOLIAH.—Wel bellach cymer atat ddêl,  
 Ymddiried rwyf yn nerth y waew hon.

DAFYDD.—F'ymddiried innau sydd yn nerth fy  
 Nuw,  
 Mae f'enaid nawr yn tanio at y gwaith.

GOLIAH.—Gadawaf d'einioes iti, tra yr  
 Anadlwyf; dim yn hwy! mi godaf fi y  
 Miswrn glan am fynud awr.

(Dafydd yn tafu y gareg, a honno'n suddo yn nhaleon y  
 Cawr.)

## RHAN VII.

DAFYDD o'r Neill-du.

O DDUW, fy nefol Dad  
Derbyn fy ngwir fawrhad, i'th enw mawr,  
Mewn gostyngedig gân, enyna fywiol dân,  
Am fuddygoliaeth lan, ar uchel gawr.

Dy noddod Ior y nef,  
A'i darostyngodd ef, ger bron y llu;  
Tydi roes immi rym, a'm ffon i dafu'n chwim,  
Y gareg soddai'n llym, i'w dalcen du.

O'r nef gwrandewaist ti,  
Yn barod arnaf fi, mewn cyfyng awr,  
Pan oedd fy mynwes lawn, o eiddigeddus ddawn,  
Dros euw uchel iawn, fy Arglwydd mawr.

Cyd-uned lluoedd llawr,  
Mewn anthem faith yn awr, a'g engyl glan,  
I anrhydeddu Duw, Iachawdwr dynolryw,  
A chrewr pobpeth byw, a'g uchel gân!

(SAUL, mewn ymson wrtho ei hun, yn ei babell, yn disgwy  
am air o newydd o'r frwydr.)

SAUL.—A oes yr un gair o newydd o'r maes?

CLUDYDD arfau SAUL. Nac oes na siw na miw.

(SAUL yn cilio i'w ystafell.)

Och! och, pa ham ym codwyd i'r orsedd hon  
erioed,

Pa ham y cefais goron, os nad i'm gwneud yn  
nod

I ofnau ac amheunon, a dychryn o bob man,  
I wneud fy nhy fel carchar, i'w gloi ar f'enaid  
gwan.



Cydwybod sy'n fy mrathu, fel arthes yn ei gwanc,  
Tra'n ofni'n anobeithiol, mae bywyd fel ar dranc,  
Os oes fath le i boeni, heb orphwys mwy na'r lli,  
Ac uffern ar y ddaear, mae'n rhaid mae dyma hi!

Mor ddedwydd yw'r llafurwr, o fewn ei fwthyn  
tlawd,

Uwchlaw y pen coronog, i'r gelyn fyddo'n wawd,  
Mae swm bytheiriau celyd, Goliah yn fy nghlust,  
Yn mron am llwyr fyddaru, ac ofer gwaeddi, ust!

Y CLUDYDD ARFAU. Y mae rhywun i'w ganfod o bell,  
Fe pe byddai yn cyfeirio atom.

SAUL.—Cenhadwr yn ddiâu!

O na allwn alw o draw o'r dwfn yn awr  
Ryw yspryd doeth a ragfynegai im  
Fy ffawd! Pa ham na allwn i yn awr,  
Fel y Caldeaid doethion hyny gynt,  
I ddwyn y pethau pell i'm gwydd, ger bron,  
A rhag hysbysu eto beth a ddaw  
O faes y frwydr? Y diwedd ydyw'r pwnc!  
Ow, beth yw'r yspryd blin ag sydd i mi'n  
Symbylau dur, yn gwaedu fystlys, gan  
Fy marchog ddydd a nos? Y mae i mi  
Fel hunllef oesol eto ar fy ngwar!

O nad ymgyngoraswn fwy  
A'r doeth Weledydd Samuel santaidd gynt!  
Mae meddwl am ei air, y caffai y  
Y frenhiniaeth byth ei throi oddiwrth fy nhy,  
Yn ddrain o fewn fy sedd; fel pigau dur,  
Atalia i'r goron orphwys ar fy mhen;  
Eiddigedd, ofn, amheun, tybiau sydd,  
Yn gwanu'm mynwes lesg. yn yfed gwaed  
Fy nghalon friw; a'm bywyd nid yw mwy

Ond oesol dranc, a dienyddiad maith,  
Yn araf, boenus iawn!

(Sain udgyrn, a bloeddio.)

SAUL.— Pa beth yw'r sâin?  
A ydyw'r frwydr fwya'r ioed yn awr  
Wedi ei phenderfynu? (*Sain bloeddio uwch.*)  
Mae rhyw gyffroad byw trwy'r gwersyll oll  
O Dduw fy Ior! A oes un gobaith mwy  
I d'wynu ar fy nheimlad trist? Ai—ai  
Yw tynged Saul wedi ei selio byth?  
Mi welaf Abner ddewr yn dod! Yn awr  
Yn awr am byth i mi! Pa air, pa beth  
A ddywed ef? Mae arswyd arnaf wrth  
I'm feddwl gweld ei wefus ef yn dwend  
Y gair cyntaf!

ABNER.—Ardderchog frenin Israel: Henffych well!  
Boed llawryf buddygoliaeth ar dy ben!  
Y mae y llencyn ieuanc wedi llwyr  
Orchfygu'r cawr! Mae'r cawr Goliah falch  
Yn farw gelain wrth ei draed!

SAUL.—O Abner anwyl! dywed—aros—taw—  
Cod—eistedd—saf—O aros dipyn bach!  
Llefara—paid—O dywed im y gair!  
A phaid er dim a chellwair efo'r gwir.  
Ond O, pa le—pa fodd y bu? yn awr  
Ail ddywed im, Oes gobaith?

ABNER.—Mae'r frwydr fawr wedi'i henill yn deg.  
Mae'th was ieuanc wedi lladd y cawr!

SAUL.—O Dduw fy Ior! trugarog eto wyt i mi,  
Er fy nhroseddau oll, aurhydedd fo

I'th enw yn dragwyddol, uchel Ior!  
Dywed Abner im' yr hanes oll.

ABNER.—Ardderchog Saul, yr hanes gei i gyd,  
Heb chwyddo na bychanu dim.

SAUL.—Tyr'd Abner, tyr'd, mae f'enaid fel ar dan  
Am gael yr hanes, fel y bu, bob gair,  
O bant i dalar, fel y bu!

ABNER.— Y cyfan gai bob sill.  
Yn wrol safai Dafydd ar y maes,  
A'r olwg ar ei gorph yn lluniaidd iawn,  
Ei ruddiau 'n wridgoch, dan ei lygaid fflam,  
A'i wedd yn dirion, gyda meddiant llawn  
Ar ei dymerau'n dawel ar y pryd;  
Ac heb gyffroi un gradd, mewn unrhyw fodd;  
Ei wallt modrwyog oedd yn crogi dros  
Ei ysgwydd lydan gref, yn brydferth iawn,  
Gan chwifio weithiau yn y gwynt o gylch  
Ei ben, a'r olwg arno'n swyno pawb;  
Gewynan nerth i'w gweled yn eu hyd  
Trwy'i iymus fraich yn tremio yn ei gnawd,  
Ac yntau oedd yn droedig ac yn chwim,  
Ac agwedd milwr yn ei wedd.

Fe safai'n syth ger bron,  
Ac a'i ffon-dafll yn barod yn ei law,  
A'r gareg lefn o'r afon yn yr hollt,  
Yr rhwym a'r garai wydn: gyda phwyll,  
Ar ol ymdderu 'chydig o bob tu,  
Y gwyliai bob ysgogiad wnai y cawr;  
Ac ymddaugosai eto 'n glaiar iawn,  
Gan edrych weithiau dan ei sgaffell ar  
Ei elyn, yno'n ddistaw bach, ac heb  
Un agwedd a'i bradychai ef ei hun,  
Na gwybod dim i neb o'i amcan ef;

Ond eto beunydd gyda llygad gwalch,  
 Y tremiai'n graff, gan ddisgwyl beunydd bob  
 Amrantiad am ei adeg ef ei hun,  
 I'r fantais allai gael ar feddal siol  
 Y cawr!

A'r cawr gan faint ei rodres yn ei wydd,  
 I'w foddio 'i hun, gan mor chwyddedig oedd,  
 A godai a'i law chwith y miswrn mawr,  
 Gan ffugio ger ei fron, gymeryd pwyll  
 Yn ddedwydd iawn, ac i anadlu cyn  
 Cyflawni'r orchest fawr!

A'r hyny, Dafydd redai gyda gwib  
 Ac ar ysbonc y foment, gyda nerth  
 Ei fraich ewynog, daffai'r gareg chwern,  
 Yr hon, ar aden gwynt, a bwyntiai fel  
 Y saeth i'w dalcen du, lle suddiai 'n ddwfn,  
 Nes cwypai'r cawr dan bendro ar y maes,  
 Ac yno yr ymgreinio'n hir ; a'i fraich  
 Amrosgo dan ei ben, y gwingai'n ddwys,  
 Dan gicio'r ddaear las, nes rhwygo'r llawr,  
 A lluchio'r pridd yn gawod hyd y ser,  
 Ac eto 'n malu ewyn yn y fan,  
 Yn ei gynddaredd dig, gan duchan a  
 Dyheu ; ymrwyfai fel y tarw gwyllt,  
 Fo wedi ei ddal yn rhwym a rhaffau cryf  
 Y cigydd yn y lladddy wrth y bach,  
 Mewn ubain enbyd, gan drybaeddu yn  
 Y llwch yn frwnt ; boglynau'r llurig ddur  
 Fel gefyn yn ei gnawd, a'i brathent ef,  
 Gan rwymo ei gymalau oll yn dyn,  
 A'i haiarn-wn ymglymai am ei wasg,  
 Nas gallai ddiange cam, na symud ber!

Tra'n gruddfan yn y ddalfa drist,  
 Y beichiai 'n echrys, nes adseinio 'r nant,

Yn haner-byw fe regai'n ddigllon iawn  
 Ei holl au-dduwiau am ei adael ef  
 Yn ddiamddiffyn yn y gyfyng awr,  
 Yn nwylaw llencyn glas i'w drechu byth!  
 Ac wrth ei waedd ofnadwy boenus ef,  
 Y daliodd dychryn angau wersyll hir  
 Yr holl Philistiaid ofnus ar y maes,  
 Nes gwaeddai un cadfridog, "Ffown ar frys,  
 Mae llewyrch olaf gobaith wedi llwyr  
 Ddiffoddi arnom ni." A'r lluoedd maith  
 Mewn llid gorphwyllog, yn eu ffwdan ffoent,  
 Gan fathru eu gilydd yn garneddi mawr,  
 Ar hyd y maes yn wallgo wyllt bob un!

Ar hyny, Dafydd redai at y fan,  
 A thynai gleddyf hir y cawr ei hun,  
 Oddiar ei glun; a thorai ben y cawr  
 A'i arf ei hun, ac yna yn y lle,  
 O'r archoll hon, y rhedai 'i waed yn hir,  
 Yn afon ruddgoch i wrteithio 'r tir,  
 A'i gelain trwm adawyd yn ei glwy,  
 Yn gofion gwarth i'w enw bythol mwy!

SAUL.—Campus yn wir! gorgampus yn wir!  
 O'r fuddygoliaeth fyth-gofiadwy hon,  
 Hi ddylai gael ei theg gofnodi byth,  
 Mewn llythyrenau aur; neu ynte ei  
 Hysgrifio yn y graig am byth, â phin  
 O haiarn, ac a phlwm!

ABNER.—A mwy na'r cwbl, mor foneddigaidd oedd  
 Yr olwg arno—mor ddirodres oedd!  
 Mewn pob ymddygiad yr ennillai serch,  
 Ac y teilyngai glod!

SAUL.—Mae hyna 'n ddigon, os nid gormod braidd,  
 'To campus; ond ereill hefyd oedd

Yn gwneud eu rhan, gan wir deilyngu clod,  
Am ddewr orchestion!

ABNER.—Diau, ond ni welai'r bobl neb ond ef.

SAUL.—A pheth nesaf?

ABNER.—Ein Israel ruthrai ar y fyddin ddu  
I'w dinystr oll; ai'r gweddill hwnt ar ffo,  
Dan warth na olchir mono ymaith byth!

---

### RHAN VIII.

(DAFYDD yn dwyn pen GOLIAH, a'i gleddyf—yn penlinio ger  
bron SAUL; ac yn eu gosod ar lawr, wrth ei draed.)

ABNER.—Wele benrhyswr byd! Gwardwr mawr  
Ein gwlad, a pherlau 'i goron wrth ei law!

SAUL.—Can croesaw calon r'of i ti  
Fy enwog was; fy nharian, a fy nhwr,  
Fy nghastell, fy amddiffyn ydwyf ti—  
Ni feddaf eiriau all dderchafu 'th glod!  
Pa raid yn wir wrth eiriau 'i ganmol gwaith,  
Ag fo'n ganmoliaeth iddo 'i hun?

DAFYDD.—Ardderchog deyrn: eneniog nef, mae gair  
O glod, o enau gwron fel tydi,  
Yn wir anrhydedd i'm; ond nid i mi  
Y mae y clod; mae hwnw 'i fod i gyd  
I Ior y nef; efe a'm dysgodd i,  
A'm llaw i gwympo gelyn feiddia byth  
Ddirmygu Duw, fy mrenin, a fy ngwlad!

SAUL (*yn ddistaw*).

Nid wyf yn hoffi hyna'n dda; ond gwir  
Y priodolir i orchestion dyn,  
Yr hyn yn fynych sydd o ddamwain ddall!

DAFYDD.—Nid damwain chwaith, ond trefn y nef.

SAUL (*eto yn ddistaw*).

Nid da rwy'n hoffi'r gostyngeiddrwydd hwn,  
Rwyf yn drwg-dybio'r llanc: ni wn paham  
Ychwaith! Ond dywed im fy ngwron dewr,  
Pa beth yw d'enw, a pheth yw ty  
Dy dad?

DAFYDD.—Enw dy was yw Dafydd, mab i'th was  
Jesse ydwyf fi, gwr gwledig o fro  
Beth'lem draw; o Juda mae ei hân.

SAUL.—Dafydd, Dafydd: Jesse, Jesse, yn awr,  
Aros di—enwau sy'n gynnefin im;  
Mae adgof genyf am yr enwau hyn!  
Rwy'n amheu i mi wel'd dy wedd o'r blaen.

ABNER.—Yr arwr hwn  
Yw'r cerddor medrus, fu a'r delyn fwyn  
Yn chwarent ger dy fron, i yru ffwrdd  
Ddrwg yspryd fyddai yn dy fino di  
Ar droion gynt.

SAUL.—A'i hwn yw'r llencyn gwylaidd unwaith fu  
A'i fedr mawr yn enill sylw'r llys,  
Ac i'm ei enwi'n gludydd arfau im'  
Fy hun?

DAFYDD.— Ie, o frenin, myfi yw.

SAUL.—O Dafydd bach, paham y celaist hyn  
Cyhyd? Dywed dy hanes oll i mi.

DAFYDD.—Fy enwog deyrn, ni wnaethym i erioed  
Un weithred deilwng o'i choffau, yn mysg  
Gorchestion meibion Juda!

SAUL (*o'r neilldu*).

Nid wyf yn hoffi nemawr arno ef,

Pwy wyr na thrydd yn elyn penaf i'm  
Ryw ddiwrnod ar ol hyn?

ABNER.—Mae'r gwron dewr yn gwir deilyngu'r oll  
O'r mawr ddyrchafiad sy'n ei aros ef;  
Ac ni enillodd dyn eirioed ei glod yn fwy  
Anrhydeddus nag efe. Felly 'n awr  
Pa ham yr oedi, frenin dewr, ei lawn  
Gysuro ef, a'r gwobrau sydd i'w ran,  
A llonni ei galon, gyda serch a llaw  
Y dywysoges deg?

SAUL.— Gwir fy mab,  
Ti a'i henillaist hi, a thi a'i cai.  
Mae gair y brenin wedi ei sicrhau  
Yn awr i ti!

DAFYDD.—O! fendith anmhrisiadwy ydyw hon  
I mi! anrhydedd a dalasai'n llawn  
I wyr coronog ddisgyn lawr oddiar  
Eu seddau er ei chael: cael Michal deg  
I mi'n gydmares oes!

Sain caniadau merched Juda o bell—bloeddio ac adseinio  
udgyrn—gorymdaith ardderchog—banneri yn chwifio—merched  
Juda yn dyfod dan ganu a dawnsio.

SAUL.—Pa beth yw hyn? pa beth yw'r swm  
A ddisgyn ar fy nghlust o draw? Pa beth  
Yw'r fyddin fawr a welaf acw'n mhell,  
Ac yn dynesu'n gyflym atom ni?  
Beth alwodd heddyw am y dympan fwyn  
A'r delyn bêr, a'r offer cerdd yn nghyd,  
A'r holl fawlderddi hyn?

ABNER.—I dalu parch sy'n deilwng maent yn dod,  
I enw Dafydd!



SAUL.— Ai codi enw Dafydd yw  
Eu gwaith? Atolwg, Beth yw geiriau'r gân?

ABNER.— Gwrandawn yn awr!  
Merched Juda yn Canu.

DEUWCH allan ferched Juda,  
Gyda'r fyddin fawr i goffa,  
Am orchfygu llu Philistia,  
A'u holl gewri hwy;  
Yr udgyrn heddyw seiniwch,  
Ac a'r telynau cenwch,  
A dyma'r dydd i'n dwyn yn rhydd,  
O bob rhyw gystudd cofiwch;  
Saul ein brenin dewr a laddodd  
O'r Philistiaid beilch ei filoedd,  
Yntau Dafydd ieuanc gwymppodd,-  
Lawer myrdd a mwy!

Pan oedd tynged y ddwy fyddin,  
Fel yn crogi wrth y llinyn,  
Ofn a gobaith bob mynodyn,  
Dremiai rhwng y ddwy;  
Ond gyda'r ergyd farwol,  
Y troi y pwysig fantol,  
Ac Israel brudd er dod yn rhydd,  
Enillai'r dydd yn hollol:  
Saul ein brenin, &c.

Braich yr Arglwydd a amlygwyd,  
Yn y fuddygoliaeth gafwyd,  
A'n gelynyon oll a roddwyd,  
O dan farwol glwy!  
Ein gwarth a lwyr ddilewyd,  
Ein gwlad i fri dderchafwyd,

A hyd y llawr, Goliah gawr,  
A'i ymfrost fawr ostyngwyd,  
Saul ein brenin, &c.

Bellach soniwn mewn caniadau,  
Am orchestion gwledig arfan,  
Dafnai ddychryn ar galonau  
Eu gwersylloedd hwy;  
Ffon daf a cherig llyfnion,  
Fu'n cwympo 'r holl arfogion,  
Fydd testyn cân pob tafod glân,  
Yn gyfan mewn adgofion ;  
Saul ein brenin, &c.

---

#### DAMEGION AC AMRYWIAETH.

Hen Foneddwr Llechwedd Isaf.

**B**ONEDDWR gynt oedd enwog iawn,  
A'i lys wrth lan y mor ;  
Ei glod ar dafod a phob dawn,  
Adseiniai llawer cor.

Mae'n aros eto'n yr un fan,  
Ni symud gam er neb,  
Er fod ei droed yn sengi glan  
Yn ymyl Aber wleb.

Bu tywysogion penna'r fro,  
Dan nawdd ei loches gref ;  
Llewelyn fawr ar lawer tro,  
Ga'i groeso ganddo ef.

O'i olwg nid â dim ar goll,  
Ef mewn gwirionedd yw,

Gwyliedydd mawr y dyffryn oll,  
 A phawb sydd yno'n byw.  
 Ystyrir ef fel brenin mawr,  
 Ar lechwedd isa'i gyd,  
 Ei wisg addurnir hyd y llawr,  
 A gemau gwerthfawr drud.  
 Mor daled yw, fe guddia'i ben,  
 Yn nghanol cwmwl du,  
 Fel piler a gynaliai'r nen,  
 Rhag syrthio oddi fry.  
 Mae'i farf yn llwyd, ei gern yn llom,  
 A'i ddannedd rai, yn rhydd,  
 Ei drwyn yn dal, ei en yn drom,  
 A phantau ar ei rudd.  
 Ei goryn uchel, gan y gwynt,  
 Wna'n foel ei dalcen mawr,  
 Ysgydwa'i wallt ar ambell hynt,  
 Nes curo'r geifr i lawr.  
 Ac am ei wddf, mae ruban gwyrdd,  
 A huda'r defaid sionc,  
 I ddringo ato amryw ffyrdd,  
 A mentro aml sponc.  
 Pan giba'i aelau, yn ei wg,  
 A bygwth pwys ei ffon,  
 Cymerir hyn fel arwydd drwg,  
 Gan bawb a'i gwel, o'r bron.  
 Os beiddia byddin ddod i'w dir,  
 Ysgydwa'i odreu laes,  
 Nes lluchio myrdd o'r meini hir,  
 I gadw'n glir y maes.  
 Ar ambell dro fe ddigia'r don,  
 Nes golchi dros ei droed,

Ond pw—ar frys encilia hon,  
 Mor swil a neb fu'r ioed.  
 Un diwrnod tra gorphwysai'n iach,  
 Yn mreichiau melus hun,  
 Cyn iddo ddeffro, 'n ddistaw bach,  
 Do'i heibio, ddieithr-ddyn.  
 Yr hwn a'i ebill mawr a'i ordd,  
 A dyllai rhag ei flaen,  
 Dan gwr ei glog, er agor ffordd,  
 I'r march a'r cerbyd tan.  
 A phan ddeffro'i yn syn o'i gwsg,  
 Tarewid ef yn fud,  
 Rhwng twrw Trên, ac arogl mwsg,  
 Yr ofnai ddiwedd hyd!  
 A phwy mewn difrif, dybiech chwi,  
 Ydoedd yr enwog gawr?  
 Os gwyddoch, rhowch ei enw i mi,  
 Mewn penill teg i lawr!

---

Y WADD A'R EHEDYDD.

Y WADD, wedi gwella, ar ol bod yn glâf,  
 Ro'i dro drwy y maesydd, foreuddydd yr haf,  
 A gyda'g iddi godi ei golwg uwch ben,  
 Hi welai 'r Ehedydd yn esgyn i'r nen.  
 Wrth ei wel'd, a'i adenydd mor ddedwydd i'w ddwyn,  
 I entyrch yr awyr i byncio mor fwyn,  
 Hi dd'wedai yn ddistaw, wedi'r olwg a ga'dd,  
 "O na bawn ehedydd, yn lle bod yn wâdd."  
 Ond gyda'g iddi ollwng y geiriau i'r gwynt,  
 Beth welai ond Barcud yn do'd ar ei hÿnt,

A'i nod at yr 'hedydd, i'w larpio a'i ladd,  
 A'i gipio 'n ysglyfaeth ar fynud a ga'dd.  
 Ar hyny dywedai, "Wel diolch i ti,  
 Fy nhirion Greawdwr, mai gwadd ydwyf fi."  
 Dyna wers i bob dynion anfoddlon i fyw,  
 Ar radd y sefyllfa ordeiniodd eu Duw.

---

## YR YSGUTHAN A'R BIOGEN.

**Y**SGUTHAN un diwrnod, o ben y goeden syth,  
 A welai y Biogen yn prysur wneud ei nyth,  
 Gofynai ganddi gyngor er gwneud ei nyth ei hun,  
 'Run fath a hwnw'n union, o ran ei faint a'i lun.  
 Atebai'r llall yn barod, "Wrth ddechreu, gwna fel  
 hyn,  
 Nol gosod brigau'n groesion, rhaid gwasgu'r plu  
 yn dyn,"  
 Ond ar bob cyngor gaffai, er gwneud ei nyth yn grwn,  
 Dywedai mewn atebiad, o hyd, "Mi wn, mi wn."  
 Dywedai'r llall o'r diwedd, ar ol atebion maith,  
 "Paham y ceisi gyngor, os gwyddost drefn y gwaith."  
 Fel hyn mae pawb hunanol, sy'n aros byth yn blant,  
 A'nt wrth eu ffordd eu hunain, er gofyn cyngor cant.

---

## Y CEILIOG-RHEDYN A'R MORGRUGYN.

**D**AETH Sioncyn-y-gwair, dranoeth wedi'r ffair,  
 At ddrws y Morgrugyn, i gwyno mewn gair:  
 Dywedai ei gwyn, dan guro'n bur fwyn,  
 Bron rhyngu gan anwyd, a snid wrth ei drwyn;

Ar hyn, gwr y ty, a'i lais yn bur gry',  
 Ofynai "Pwy yna sy'n curo mor hy?"  
 Atebai, "myfi, eich câr a'ch ffrynd chwi,  
 Ddaeth atoch i wledda'r Nadolig, mewn bri."  
 "Ni adwaen i'ch llais, ni wnaf fi mo'ch cais,  
 Cyn clywed eich enw, er Cymro na Sais."  
 "Fy enw'i 'n wir, gwyr pawb drwy y sir,  
 Yw Ceiliog-y-rhedyn, neu Sioncyn-goes-hir."  
 "Ple buost ti'r haf, agoryd ni wnaf,  
 Nes gwybod beth wnaethost ti'r tymor teg, braf."  
 "Mi a 'i treuliais i gyd, yn ddifyr fy mynd,  
 I ganu a dawnsio er llonni pob bryd."  
 "Dos dithau yn d' ol at dy gwmni ffol,  
 Gwna d'oreu fel finnau fu'n gweithio ar y ddol."  
 A phwy ond y glew, dan farug tew, tew,  
 Cyn gweled y bore fu farw'n y rhew!  
 Dyna rybudd byth mwy i bawb yn y plwy,  
 Rhag dilyn seگردod na meddwdod ddim hwy!

---

Y GOF WEDI CAEL ENW DA.

**R**OEDD. Gof gerllaw y llau, di ail am wneud crymanau,  
 Ei glod oedd yn mhob man, ar faesydd y medelau,  
 Os byddai "Sion y Go," mewn argraph, ar y cryman,  
 Fe wnelai hwnw'r tro, yn gampus iawn yn mhob man.  
 Wrth bigo cryman da edrychid am ei enw,  
 A phawb a sicrha mai miniog fyddai hwnw;  
 Fel hyn yn raddol aeth y Gof yn lled ysmala,  
 A rhoi i'r gwas a wnaeth, y gwaith o flaen cynhaua.  
 Un diwrnod roedd y gwas, yn curo ar yr engan,  
 Fe neidiai'r dur i maes, heb asio yn y cryman,  
 Fe waeddai yn ei frys, "O meist'r, meist'r anwyl,  
 Rwy wedi taro 'mys, a thafu'r dur a'r morthwyl."

Dywedai'r meistr "taw," edrycha am yr enw,  
 Ni bydd dim achos braw, os gwnei lyth'renau gloew ;  
 Gwna'r cryman ddigon trwm, ond llyfn beth bynag  
 fy'ddo,  
 Fe werthai cryman plwm, ond bod fy enw arno.

Ond buan wedi hyn, fe gollid hyder ynddo,  
 Edrychai yntau'n syn, heb werthu dim o'i eiddo ;  
 Dyna wers i bawb drwy'r tir, er cystal ydyw enw,  
 Mai llawer gwell yw'r gwir, ni siomir neb yn hwnw.

---

#### Y FRON-RHUDDAN A'R FRONFARITH.

**A**R dalcen yr eglwys, wrth dafnod y gloch,  
 Ar foreu cymylog y do'i Robin-goch ;  
 Ar ol cael distawrwydd yr holl adar man,  
 Dechrenai ymsythu i gychwyn ei gan ;  
 Ond gyda'g iddo ddechreu a phasio o'r gwlaw,  
 Do'i'r Fronfraith gyferbyn, gan waeddi, "taw, taw,  
 Gad y byd i gael clywed cerddoriaeth o werth,  
 Gan un o gantorion melusaf y berth."

Ond Robin ni phlygai un gradd iddi hi,  
 A gwaeddai'n ei gwyneb, "a phwy ydwyt ti ?  
 Cantores hunanol am dymor yr haf,  
 Yn tewi'n y gauaf fel un fyddai glaf,  
 Gwyr pawb pa mor fuan, nol troad y rhod,  
 Y rhoddi gan g'wilydd, dy gerdd yn dy god :  
 Pa ddiolch, ar degwch, it adsain y wig,  
 A chynta del cawod, heb agor dy big ;  
 Os myfi sydd i ganu ar eira a rhew,  
 A phara drwy'r flwyddyn i byncio'n o lew,

Myfi sydd i ganu dan d'wyniad yr haul,  
 A thithau i dewi, neu ganu yn ail.  
 Fel hyn y gwrandewir y cywir ei fryd,  
 All ganu dan drallod, fel llwyddiant y byd.

---

YR HEN WRAIG A'R EDAFEDD.

ROEDD gweddw 'nol colli ei gwr,  
 A'i hyder ar gymorth ei phlant,  
 Canfyddai y saith mewn ystwr,

Un diwrnod yn ngwaelod y nant,  
 A hithau a safai gerllaw,  
 Yn ddirgel yn nghysgod y pren,  
 Mewn teimlad o bryder a braw,  
 I'w gwylid yn ddyfal uwch ben.

Roedd un wedi 'ymwisgo yn lan,  
 A'i wallt wedi'i drwsio'n bur ddel,  
 A'r llall oedd a'i dafod ar dan,  
 Yn hynod o goeglyd i'w hel;  
 Brawd arall a waeddai, paid, paid,  
 Bydd ddistaw, gad lonydd i'th frawd,  
 Un arall yn fuan a gaid,  
 I gymell y gynen a'r gwawd.

Yr hynaf a godai ar hyn,  
 I hyrddio y llall a'g ysgwd,  
 Nes llithrai hyd lethr y glyn,  
 Dros ymyl y genlan i'r ffrwd,  
 Ar hyny cyffroai y fam,  
 A rhedai hyd waelod y rhos,  
 Achubai yn fuan y cam,  
 A chodai y bychan o'r ffos.



Hi alwai'r holl dylwyth o'r bron,  
 I'r bwthyn ar amnaid o draw,  
 I sefyll o gylch y ford gron,  
 Nol doddi yr hosan o'i llaw ;  
 Gwahoddai y gwanaf yn mlaen,  
 Gofynai, "A elli di'n awr,"  
 Dori edau fain ungainc o wlan,  
 Atebai, "O gallaf," yn gawr.

Ac wedi ei throi am ei fys,  
 A'i thynnu a'g ergyd ei law,  
 Fe'i dryllai yn ddwy gyda brys,  
 A'r lleill oedd yn gwenu gerllaw ;  
 Yna'r fam dynnai'r bellen i'w hyd,  
 A thorai saith gainc ar wahan,  
 Ac wedy'n fe'u plethai yn nghyd,  
 Yn edau gyfrodedd gref, lan.

Gofynai i'w meibion bob un,  
 Gan ddechreu o'r bychan i'r mawr,  
 Am dorri a'u hegni eu hun,  
 Y ceinciau unedig yn awr,  
 Ond wedi rhoi prawf ar eu grym,  
 A thynnu eu goreu yn nghyd,  
 Nid allent mo'i thorri hi ddim,  
 Ai'r orchest yn ofer i gyd.

A hithau nol gorphen y gwaith,  
 A'i llygaid gan ddaagrau yn llyn,  
 Wrth edrych ar wyneb y saith,  
 Ddywedai yn dyner fel hyn—  
 Dyna wers i chwi bellach bob un,  
 Ar niwaid ymryson a chas,  
 Mor wan ydyw pawb wrtho'i hun,  
 A'r brodyr fo'n cwympto i maes.

Mae'r ddameg i'ch dysgu'r un pryd,  
 Fath gymorth wna undeb i fyw,  
 Mai brodyr fo'n trigo yn nghyd,  
 Fendithir a nodded ei Duw ;  
 Ac felly mai byw yn gytun,  
 Heb gynyg na chynen na cham,  
 Sicrha eich daioni eich hun,  
 Heb siomi disgwyliad eich mam !

---

 ANGAU A'R DYN ANMHAROD.

(A. Angau. D. Dyn. H. Hanesydd).

- A. **D**RAFFETHUS wr, a thi yn awr,  
 Y mae fy neges i,  
 I'th wysio o derfynau'r llawr,  
 C'od, tyred gyda mi.
- D. Atolwg, y Cenhadwr dwys,  
 Ti fethi'r nod yn lan,  
 Ni roddir gwys o gymaint pwys,  
 Heb rybudd maith yn mlaen.  
 Ac heblaw hyn, pa reswm yw,  
 Fy aflonyddu i,  
 Sy ddim ond newydd ddechreu byw,  
 Dos at yr hen, da di.
- A. Wel, nol dy gais yn nhrafferth byd  
 Gadawaf di ar ol,  
 A rhof dri rhybudd it mewn pryd,  
 Ac yna dof ith nol.
- H. Yn mhen ugeinmlwydd i'r un dydd,  
 Dychwelai'r swyddwr llym,  
 I roddi ar y truan prudd,  
 Y warant fawr mewn grym.

Ymrithiai fel drychiolaeth du,  
 Cyfeiriai at ei nod,  
 Dywedai wrtho'n ddigon hy'  
 "Wel, dyma fi wedi dod."

A wyt ti'n barod at y daith,  
 Heb ymgyndynu mwy,  
 Ni thal un esgus brys na gwaith,  
 I oedi awr yn hwy.

- D. Ow aros, aros, cofia d'air.  
 Y cawn dri rhybudd clir,  
 Gwysio dyn truan byth ni wnair,  
 Heb ei rybuddio'n hir.
- A. Pa beth yw gwydrau ar dy drwyn.  
 A wisgi'n hynod lan,  
 Doedd ar dy wyneb bleth na ffrwyn,  
 Pan welais di o'r blaen.
- D. Fy ngolwg sydd yn pylu'n wael,  
 Wrth ddarllen argraph man,  
 Mae'n rhaid i minau heddyw gael,  
 Cynhorthwy'r drychau glan.
- A. Felly, dyna'r rhybudd cyntaf roed,  
 I ti yn eglur iawn,  
 Sy'n dangos na chadd neb erioed,  
 Ei rybudd yn fwy llawn.  
 Pa beth yw'r corn sydd wrth dy glust,  
 Oes diffyg ar dy glyw?  
 Mae hwna debyg, iti'n dyst,  
 Nad hir y byddi byw?
- D. Go drwm o glywed wyf ers tro,  
 Mi gefais anwyd trwm,  
 Mi gerddais allan filltir, do,  
 Un hwyr ar fin y cwm.

- A. Ac felly gweli, dyna'r ail,  
 A roed i ti yn ol,  
 Sy'n dangos nad oes unrhyw sail,  
 I'th esgusodion ffol.  
 Pa beth yw'r rheswm elli roi,  
 Dy fod yn gwisgo ffon,  
 Trwy gwm a dol, eit heb ymdroi,  
 Dan redeg gynt yn llon.
- D. A dweud y gwir, f'aelodau sydd  
 Yn anystwytho'n llwyr,  
 Rwy'n blino'n llesg, waeth, waeth, bob dydd,  
 Cyn gweled oriau'r hwyr.
- A. Felly, dyna 'r trydydd rhybudd roed,  
 Yn eglur iawn i ti,  
 Dirwynwyd pellen edau d'oed,  
 Cod, tyred gyda mi!
- H. Ar hyn, newidiai'i welw wedd,  
 Fe'i cipiai awel gref,  
 Ei gorph adawyd yn y bedd;  
 Ei enaid, p'le mae ef?

Y PRYF-COPYN A'R GWIBEDYN.

A R foreu teg, dan d'wyniad haul,  
 A Gwibedyn hedai 'n llon,  
 Gan suo'n ddifyr rhwng y dail,  
 Wrth chware 'i aden gron.  
 Pryf-copyn yntau oedd gerllaw,  
 Yn gwylio 'n nrws ei dy,  
 A gwaeddai, gan amneidio a'i law,  
 "Hai! disgyn oddi fry."

Dywedai'n fwyn, "Tro yma ffrynd,  
I eistedd ar fy stol,  
I orphwys peth, ac yna i fyn'd  
Pan fynni yn dy ol."

- G. Un dieithr ydwyf fi i ti.  
Heb wel'd erioed dy dy,  
Nid gweddus iawn i wr fel fi,  
Heb neges, fod mor hy.
- P. Fel un dieithrol ar ei daith,  
A'i edyn byth ar daen,  
Rhaid mai blinedig ydyw'r gwaith,  
O wibio ol a blaen.
- Mae iti yma groeso llawn,  
Fel hyn mae trefn y wlad,  
Hen arfer fwyn, garedig iawn,  
Oedd hon yn nhy fy nhad.
- Mae genyf fwthyn dela'riod,  
A ffordd i'r parlwr glan,  
Hyd risiau esmwyth iawn i'r troed,  
Wnaed o edafedd man.
- G. Yn esgusodol cymer fi,  
O'r croeso hwn yn awr,  
Rhag nad oes canllaw yn dy dy,  
Mor hawdd i ddod i lawr.
- P. O na, mae pobpeth yn ei drefn,  
Drwy'r ystafellau' gyd,  
A llwybr teg at ddrws y cefn,  
A charped ar ei hyd.
- G. Maddeua i mi' ni throf i mewn,  
I faed du 'r lloriau glan,  
Ac ofer fyddai, pe y d'ewn,  
A minau i fynd yn mlaen.

- P. Na gyfaill bach, gwneud iti les,  
Oedd yn fy mwriad i,  
Tyr'd llecha fynud rhag y tes,  
O fewn ein pabell ni.  
Mae genym yma gwpwrdd llawn,  
O bob danteithiol fwyd,  
Mae bara chaws, a menyn iawn,  
Yn crogi yn y rhwyd.
- G. A! beth ddywedaist, "Yn y rhwyd,"  
Nid wyf yn deall hyn,  
Gwna honno'i ferwi tatw'n fwyd,  
Nid cadw'r bara gwyn.
- P. Ho! slipio gair, fel atal dweud,  
Sy'n fynych hyd y wlad,  
Nid felly byddwn byth yn gwneud,  
Tro'i mewn, cei groeso rhad.
- G. Na, diolch it' di elli gloi,  
Ni ddof yn awr ith lys,  
A bore da ni thal ymdroi,  
A minau ar fath frys.
- P. O! aros, mae dy glog yn wych,  
A'th lygaid gloew'n glws,  
Tyr'd gwel dy degwch yn y drych,  
Sy'r ochr draw i'r drws.
- G. Mi hoffwn wir, gael gwel'd fy llun,  
Mi welais ddrych o bell,  
Gwyn fyd na chawn un im fy hun,  
I'mwisgo yn fy nghell,
- P. Cei yma wel'd dy hunan ail,  
Mewn darlun perffaith, pur,  
Mewn gwydr teg, o gywir sail  
Yr ochr draw i'r mur.

Ac felly, nesu'n araf wnaeth,  
 Bob cam yn ysgafn iawn,  
 Rhwng bodd ac anfodd, nes y daeth,  
 A'i droed o'r braidd i mewn.

A gyda bod ei gamrau ar  
 Y trothwy, druan ffol,  
 Fe ruthrai'r copyn ar ei war,  
 Nas gallai droi yn ol.

A'i freichiau am ei gorphyn main,  
 Fe'i maglai yn ei rwyd,  
 Rho'i raffau'r we, yn dyr fel wain,  
 Am dano yn ei glwyd.

Ar ol ei rwydo, ben a thraed,  
 Trywanai ef a'i gledd,  
 Nol hir sychedu am ei waed,  
 Ai'n fuan at ei wledd.

Mae hon yn wers i bawb mewn pwyll  
 Er iddynt gadw draw,  
 Yn mhell rhag pob hudolus dwyll,  
 I'n llwybrau'n fynych ddaw.

### Y LLWYNOG A'R CEILIOG COEDIAR.

LL. Y LLWYNOG, un boreugwaith, ar ol ymprydio'n  
 hir,

Ro'i dro o gylch y goedwig, tra'r wawr yn tori'n glir,  
 A gwelai Ceiliog-coediar, yn mhen un dderwen dal,  
 Ac yntau'i nesu ato, a ddringai'i ben y wal :  
 Cyfarchai ef yn foesgar, " Dydd da fy nghefnder bach,  
 Mae'n llawen gan fy nghalon dy wel'd mor wrwl iach;  
 Hiraethais am dy weled, do'n ddiau lawer gwaith,  
 Am gwmni hoff berthynas, y daethym ar y daith ;

Rho wybod fodd mae arnat, pa sut maeth dad a'th  
fam,

A ydyw dy chwirorydd mewn cynnydd heb gael cam,  
A ydyw'r holl geiliogod yn barod yn cael bwyd,  
A'r ieir yn glyd ddiogel y nos o fewn eu clwyd?

C. Wel syndod at dy eiriau, sy'n ddieithr iawn i mi,  
Ni wyddwn fod ein teulu yn perthyn dim i chwi,  
Ac hefyd am dy nabod, ni welais di o'r blaen,  
Rwy'n amhen oes cyfathrach i ni'n dy linach lân.

LL. Oes, agos geraint ydym, cylymwyd ni yn un,  
Ers deunaw cant o flwyddi gan un oedd fwy na dyn,  
"Mae gan lwynogod ffauau, a'r adar nythod glan,"  
Byth wedyn ni ddylasem fod unwaith ar wahan.

C. Paundeb a wnaeth hyny, mae'n nythod ni'n y coed,  
Mewn tyllau dan y ddaear, mae'ch cartre' chwi erioed.

LL. Na, 'nghar, mae'n ysgrythyrol, fod llewpard  
gyda'r myn,

A'r eryr gyda'r oenig, does neb a wada hyn ;  
Ond er cael mwyn gyfeillach, disgyna'n is i lawr,  
At fonyn praff y goeden, wrth fforch y gangen fawr.

C. O na, ni glywn ein gilydd, oddiar y brig yn hawdd,  
A thithau ar dy goesau, mor syth ar ben y clawdd.

LL. Na'n wir, mae'n eithaf enbyd, ar frigyn sy mor  
fain,

Un awel a'i hysigai, dan bwysau dwy o frain.

C. O na, rwy'n eitha diogel, rwyf yma'n siglo'n  
braf,

Ac os daw pwff o gorwynt, cymeryd aden wnafl

LL. Wel dian, ti a glywaist, am y cyhoeddiad mawr,  
Fod heddwch cyffredinol rhwng holl dylwythau'r  
llawr,



Bwystflod ac ymlusgiaid, y cwn a'r cathod dig,  
A'r adar o bob graddau sy'n clwydo yn y wig.

A'r hyn, fe sythai'r Ceiliog, fe godai'i ben yn uwch,  
Ysbiai rhwng y brigau, tu draw i'r march a'r fuwch;  
Ar hyny, gwaeddai'r cadno, wrth weled arno'r drych,  
Pa ham y sythi gymaint i dremio dros y gwrych?

Atebai'r llall, mi dybiais, ers meityn glywed swm,  
Pur debyg i'r bytheiaid, yn awr mi wela'r cwn.

Ar hyny, gwaeddai'r cyfrwys, "ni fynni gwnni'r  
llon,  
Gadawaf di gan hyny, mi oedais ormod bron."

O nage, nage, aros, does berygl yn y byd,  
A chwithau mor gyfeilgar a'r milgwn oll yn nghyd.

Na wnaf, nid sych ymderru ydoedd fy neges i,  
Ni chlywsant hwy'r cyoeddiad, ffarwel ar hyn i ti.

Hyn yna sydd fel addysg, i rai diniwaid iawn,  
Fod ar eu gwyliadwriaeth, rhag gwyr o ddengar  
ddawn,

Pan ddont a'u stori lithio, i'w hudo drwy anhap,  
I gerdded rhwng y maglau, a'r troed i fyn'd i'r  
trap.

---

### ERFYNIAD YR ADAR TO.

OES berchen aden yn y byd,  
Mor druan a nyni,  
Y rhai erlidia pawb yn nghyd,  
Na chawn mo barch y ci.

Amaethwr, fel y Garddwr sydd,  
 A'i ddryll neu fwa saeth,  
 I hela'n heinioes nos a dydd,  
 Neu'n dal mewn magl gaeth.  
 Er nad oes gweision yn y wlad,  
 Ffyddlonach ellir gael,  
 Pe baid ond prisio y llesad,  
 A wnawn heb unrhyw draul.  
 Tair mil o lindys ysol man,  
 Mae par o honom ni,  
 O'u cnydau yn eu difa'n lan;  
 Bob wythnos wrth eu rhi.  
 A chlodwn ddeugain yn yr awr,  
 I borthi'r cywion bach,  
 Pan font mewn nyth uwchlaw y llawr,  
 Yn cael magwraeth iach.  
 Os dygwn rai gronynau mân,  
 O haidd neu wenith gwyn,  
 Pa faint, feddylier, ar wahan,  
 O golled fyddai hyn,  
 Wrth y daioni mawr a wnawn,  
 I gynnyrch ffrwyth y maes,  
 Pan geir yn nghyd y swm yn llawn,  
 Ar gyfer biliau laes?  
 Pa ham na chaem wrth drefn y nef,  
 Y tymor roes ein Duw,  
 Yn mwriad ei ragluniaeth ef,  
 I bob creadur byw?  
 Pryniawdwr byd yn nyddiau'i gnawd,  
 Goffa'i aderyn-to,  
 A'i bris yn aberth i'r tylawd,  
 Oedd ffyrlling ar y tro.

Ni syrth yr un dan ergyd gref  
 Creulondeb, er mor wan,  
 Heb fod ei sylw manwl ef,  
 Yn gwylied ar ei ran.

Gadawer anadl pobpeth byw,  
 Yn llaw yr Hwn a'i rhoes,  
 O'i wir haelfrydedd i bob rhyw,  
 Hyd fesur dyddiau'i oes.

Wrth wregys aur yr hwn y mae,  
 Yr holl allweddau gyd.  
 I agor dor, neu ynte gau  
 Yr anweledig fyd!

---

“AC Y'M CAIR YNDDO EF.”

**M**ASNACHWR, ar un tymor, wna'i daith i'r  
 gwledydd pell,  
 Tu draw i'r moroedd llydain, lle'r oedd march-  
 nadoedd gwell,  
 A buan gyda glanio, ar ol y fordaith hir,  
 Cai'r porthladd a ddymunai, ar fin y ffrwythlon  
 dir.

Fe brynai yno'r nwyddau, am bris rhesymol iawn,  
 Ac a'r trysorau gwerthfawr, fe lwythai'r llong yn  
 llawn,

Ac yna at ddychwelyd yn ol i'w wlad ei hun,  
 Fe godai hwyl ac angor, ar fore dedwydd hin.

A phan y troai allan, yn hyfryd ar ei hynt,  
 Roedd haul yn gwenu'n dirion, a'r hwyliau'n llawn  
 a'r gwynt,

Roedd pobpeth yn cyduno i addaw hapus daith,  
A llwyddiant mawr i ddilyn ar holl gynlluniau'r  
gwaith.

Tra'r hwyliai'r llong yn gyflym, o flaen yr awel  
gref,  
A phawb o'r dwylaw'n gwenu, ar ei fanteision ef;  
Un dyn o ben yr hwylbren, a waeddi, "Dacw'r  
tir,  
Yn eglur yn y golwg, cawn lanio cyn bo hir."

Nol i'r masnachwr ganfod, rhwng coed y bryniau  
draw,  
Y mwg o simfa'i balas, uwchben y wig gerllaw,  
Fe lonai yn ei galon, i'r caban brysiat'i lawr,  
Ai dros ei holl gyfrifon, i symio'r elw mawr.

Dywedai wrtho'i hunan, yn llawen iawn ei fryd,  
"Ni chostiodd yr holl eiddo, ond hyn a hyn i gyd,  
A dim ond glanio adref, cyrhaeddant hyn a hyn,"  
Ymchwyddai yn ei deimlad, tra y myfyriai'n syn.

Wrth wneud y swm i fynu, a'i droed tarawai'r  
llawr,  
Dywedai mewn gorfoledd, "Myfi yw'r dyn yn awr,  
Wel dyma fi o'r diwedd, yn berchen a'r ystad,  
Fi fydd y gwr bonheddig parchusaf yn y wlad."

Ond tra'r oedd ef yn gwledda, newidiai gwedd yr  
hin,  
Dangosai'r nen ar foment, arwyddion storom flin,  
Fe dduai'r wybren uchod, chwibanai'r awel draw,  
Fe wibiai'r mell t fflamgochion drwy'r holl gymylau  
gwlaw.

A dyna'r corwynt nerthol yn rhuthro ar y don,  
I'w lluchio mewn cynddaredd, hyd at y ser o'r  
bron,

A'r llong yn troi a siglo, gan neidio ar y brig,  
Ac yna disgyn eilwaith hyd y gwaelodion dig.

Roedd nerth y morwyr druain, yn pallu yn ddi  
rym,

A'u dyfais a'u doethineb oll wedi mynd yn ddim :  
Yn fuan dryllian'r rhaffau, a'r hwyldbren holltai'n  
ddau,

Wrth wel'd y llong ar suddo, a'i pawb i'w  
hysgafnhau.

I'r caban rhedai'r llywydd, at y marsiandwr  
prudd,

A gwaeddai yn gynhyrfus, "rhaid gwneud y llong  
yn rhydd,

A thafu'r nwyddau ymaith, ar fynud dros y  
bwrdd,

Os mynwn gadw'n bywyd, a chael o'r graig i  
ffwrdd.

Ond yna'r llall eiriolai, "Na wnewch fath beth,  
er dim,

A throi fy nhaith yn ofer, a'r fath golledion  
im ;

Ond meddai'r cadben eilwaith, rhaid dewis un o  
ddau,

Ymadael a'r holl eiddo neu golli'r bywyd brau.

Ar hyn, fe waeddai yntau, wrth weled angau du,  
Yn tremio yn ei wyneb, o'r mor a'r gawod fry,  
"Wel tafwch ynte 'r cyfan, i eigion dwfn y don,  
Os ceidw hyny'n bywyd, mwy gwerth na'r ddaear  
gron."

A phan ddynesai'r llestr rhwng gwynion donnau'r  
aig,

I ymyl cilfach dawel, mewn agen yn y graig,  
Fe neidiai yntau yno, rhwng ofn a gobaith gwan,  
Ac yn y penderfyniad cyrhaeddai dawel lan.

A phwy oedd y masnachwr, ond Pharisead balch,  
Ai o dan argyhoeddiad, a'i wedd mor llwyd a'r  
calch,

A dafiai ei gyfiawnder, a'i fwriad goreu oll,  
Fel bratiau budron ymaith, i gyd, i gyd, ar goll.  
Pan ruai tonnau'r gyfraith, gan agor yno'u safn,  
Fel uffern am ei lyngau, dych'mygai fod pob dafn;  
Edrychai'r ffordd i fynu, pob man oedd gaddug  
du,

Y dyfnder tywyll isod, a'r cwmwl brochog fry.

Cyn suddo 'n mor euogrwydd, yn nyfnder eithaf loes,  
Fe lefai am drugaredd yn haeddiant gwaed y  
groes,

A phan do'i 'r gobaith cyntaf i lonni'i galon drist,  
Cyfrifai 'r oll yn golled fel yr enillai Grist.

Yn wyneb gofyniadau cyfiawnder deddf y nef,  
Y gwaeddai'n uwch na'r daran "y'm cair i ynddo  
ef,"

Heb ddim o'm heiddo'm hunan, na'm cyflawniadau  
i gyd,

Mi bwysaf ar drugaredd Gwardedwr mawr y byd!

Ar ol cael glan a chilfach, a theimlo ei ryddhad,  
A'i draed ar graig yr oesoedd y canai am y  
gwaed,

Dewisai yn arwyddair ei fordaith tua'r nef,  
Heb ofni mwy long-ddrylliad, "Y'm cair i ynddo  
ef!"

“WELE, YR WYF YN SEFYLL WRTH  
Y DRWS, AC YN CURO.”

**B**ONNEDDWR un diwrnod ddaeth,  
I 'mweld a'i dref ei hun,  
Cyfeirio drwy y prif-ffyrdd wnaeth,  
I'r heol waela 'i llun.

Gorchmynai'r gweision sefyll awr,  
Wrth fwthyn gwael ei ddrych,  
Disgynai yntau ynoi lawr,  
O'i gerbyd breiniol, gwych.

Ac at y drws dynesai e,  
A churai ar y ddor,  
Ond nid oedd neb o fewn y lle,  
Atebai'r uchel Ior.

Arhosai'n hir, yn wlyb ei gefn,  
O dan y bargod syth,  
Gan guro eilwaith, a thrachefn,  
Er gwlychu'i ben a'r gwlyth.

Fe glywai'r deiliad oddi fewn,  
Ergydiau'r cenad cu,  
Dywedodd droiau, “Ust! gwrandewn,”  
Yn nghanol twrw'r ty.

Ond eto llechu gerllaw'r bwrdd,  
Yn ddistaw a wnai ef,  
Gan ddisgwyl yr a'i 'r gwr i ffwrdd,  
A'i weision tua thref.

Er hyny, curo yn barhaus,  
A wnai ei feistr tir,  
Er mor ddiystyr am ei gais,  
Bu ef am amser hir.

O'r diwedd, ei leferydd mwyn,  
 A doddai'r galon ddur,  
 Neshai y gwreng i wrando 'i gwyn  
 O fewn, ar bwys y mur.

Gofynai pwy yn curo oedd,  
 Mor daer drwy'r hir brydnhawn,  
 Atebai'r llall, a chynes floedd,  
 "Myfi," yn eglur iawn.

Myfi, dy feistr ddaeth o bell,  
 Ar neges atat ti,  
 Gan ddisgwyl iti yn dy gell,  
 Swperu gyda mi.

Y dorau oedd dan folltau'i gyd,  
 A'r clo yn gadarn gryf,  
 A'r glicied oddifewn, bob pryd,  
 Sicrhau y deiliad hyf.

Ac er mai ty ei arglwydd oedd,  
 Ef gadwai'r hawl yn awr,  
 Wrth gyfraith, dwedai hyn ar goedd,  
 Yn ngwydd ei feistr mawr.

Er hyny, meddai'r meistr mwyn,  
 Gofyn yr wyf i ti,  
 Dy genad, ac heb feddwl dwyn,  
 Dy hawl—"C'od derbyn fi."

Tyr'd agor, agor, gyda brys,  
 Rwyf yma dan y to  
 (A'r myr dyferol wrth ei fys,  
 Uwch ben hesbenau'r clo).

Mae'n alar heddyw wel'd y ty,  
 Fu'r harddaf yn y dre,  
 A'r olwg ar ei furiau'n ddu,  
 A'r nen mor boll o'i ie.



Y dorau dan yr eiddew drwch,  
 Pob ffenestr ar ei hyd,  
 A'r meini teg dan len o lwch,  
 A gwe pryf-cop i gyd!  
 Fe synai beth: ni ddwedai ddim,  
 Mor galed oedd y dyn,  
 Ond ni leihaodd hyny rym,  
 Ei daerni ef ei hun.  
 Ar hyn, y deiliad godai'n chwim,  
 Er maint ei deimlad prudd,  
 Ac heb arferyd egni ddim,  
 Agorai'r bolltau'n rhydd.  
 Dywedai wrth ei feistr mwyn,  
 Yr ardreth ddylech gael,  
 Ni fedda'i ddim i'w thalu'n awr,  
 O fewn fy mwthyn gwael.  
 Dewch yma adeg well na hon,  
 Mi drwsia'r ty i gyd,  
 Ac yna chwi gewch groesaw llon,  
 A'r ardreth yr un pryd.  
 "Na, na, rwyf am gael dod yn awr,  
 I wledda gyda thi,  
 I wledda mi eistedda'i lawr,  
 Gwledd dithau gyda mi.  
 "Mi ddof i mewn heb edliw coll,  
 I'r bwthyn fel y mae,  
 Fy neges â yn ofer oll,  
 Os ti sydd i'w lanhau.  
 "Na son am ddyled bythoedd mwy,  
 Maddeuwyd honno'n rhad,  
 Gwel, dyma'r biliau, croeswyd hwy,  
 Ag inc effeithiol waed!"

A phasgedigion breision iawn,  
 Puredig win, heb drai,  
 Arlwyid bord y wledd yn llawn,  
 Heb son am goll na bai.

Roedd gwledd i'r meistr, erbyn hyn,  
 Wrth wel'd y dagrau mawr,  
 Yn llifo'n edifeiriol lyn,  
 Ar hyd ei ruddiau 'i lawr.

A gwledd i'r truan tlawd a llwm,  
 Ar flas maddenant rhad,  
 Fe gwypai'r holl amhenon trwm,  
 Pan deimlai ei ryddhad.

Dechreuai y gorfoledd llon,  
 A'r anthem faith ei hyd;  
 Wrth sain telynau'r dref o'r bron,  
 Y dawnsiai'r teulu'n nghyd.

Pwy byth ddychmyga bellach faint,  
 Llawenydd gwledd mor lan,  
 A phwy all ddirnad graddau'r fraint  
 O uno yn y gan!

Gerllaw y bwrdd, 'uwch ben y wledd,  
 Yn nghanol y mwynhad,  
 Deallai'r truan wrth ei wedd,  
 Mae'i feistr oedd ei Dad!

---

 YR YSGRYTHYR.

(Ysgrifenydd y darnau canlynol yn amser Jubili Cymdeithas  
 y Biblau.)

**P**AN yr ydoedd byd yn gorwedd,  
 Yn nhywyllwch maith y nos,

Heb olenni nac arweinydd,  
 I'w waredu rhag ei loes,  
 Holl ddoethineb oesau meithion,  
 A'r galluoedd mwya'u grym,  
 Wedi cynyg ei ddiwygio,  
 Eto heb ei wella ddim.

Wele caed y waredigaeth,  
 Yn natguddiad mawr y nef,  
 Haul cyfiawnder godai'n ddisglaer,  
 I'w lesau a'i asgell gref,  
 Caed y feddyginiaeth werthfawr,  
 Wella archoll ddofn y byd,  
 Pan nad allai deddfau dynol,  
 Na'u doethineb pena'n nghyd.

Dyma drysor uwcha'r ddaear,  
 Dyma gyfoeth mawr y nef,  
 Delw'i awdwr ar bob dalen,  
 Ddengys ei gymeriad ef,  
 Er ei dynnu gan rai gwledig,  
 Heb fanteision dynol ddysg,  
 Cyn i athrofaan y doethion,  
 Urddo mawrion yn ein mysg.

Bu erlidwyr fynai'i losgi,  
 A'i ddifodi oll o'r byd,  
 Ond nid oedd yr un YSGOLAN,  
 Allai ddifa'r trysor drud,  
 Methodd tân a ffwrn ei ysu,  
 Methodd amser guddio gair,  
 Fe oroesa ei elynion,  
 A'r ymosod gwaethaf wnair.

Ceisiodd dynion sych ddoctoraidd,  
 Haeru fod ei eiriau'n dwyll,

Mynent fod ei ysgrifenwyr,  
Wedi myn'd yn mhell o'u pwyll,  
Ond er holl ystrywiau'r gethern,  
A'r dewiniaid pena'n fyw,  
Prawf ei effaith ar galonau,  
Heddyw'i fod yn enau Duw.

Gwellodd hwn gyflyrau dynion,  
Oedd yn ngwaelod isaf gwae,  
A dyrchafai'r byd o'i godwm,  
I'w brydferthwch, fel y mae,  
Gyrai'r delwau byddar ymaith,  
Drylliai yr eulunod mud,  
Chwalai demlau ofergoelion,  
Sangai ar eu llwch i gyd.

Pwy dderchafodd urddas gwragedd,  
I'w sefyllfa deilwng hwy,  
Pwy gynhesodd ein haelwydydd,  
Geir mor hawddgar, moesgar, mwy,  
Pa ryw beiriant gan y doethion,  
Daenai gymdeithasau res,  
Ddenent fel cerbydau llawnion,  
A'r bendithion mwya'u lles?

Pwy gyweiriodd wely angau,  
Er gofidiau llawer un,  
Pan oedd goreu'r byd yn cefnu,  
Ac yn gadael dyn ei hun,  
Pwy oleuai rydiau afon  
Dywell yr Iorddonen gref,  
Ond y llusern mawr anfeidrol  
Gafwyd o ffurfafen nef?

Ar y ddol wrth lan yr afon,  
 Yr eisteddai truan ddyn,  
 O dan boen cydwybod euog,  
 Gan ymofyn wrtho'i hun,  
 A pha beth, yn aberth iawnol,  
 Denaf at yr uchel Dduw,  
 A dderbynia dros fy mhechod,  
 Ffrwyth y groth, anwyla'n fyw?

Dan ofidiau llymaf teimlad,  
 Chwiliai am ymwarded mwy,  
 Ond er chwilio anian drwyddi,  
 Dyfnach, ddyfnach, aethai'i glwy :  
 Holai'r nef, olrheiniai'r ddaear,  
 Gwibiai dros y moroedd mawr,  
 Wylor oedd y dagrau heilltion,  
 Heb un gobaith toriad gwawr.

Ond yn ymyl anobeithio,  
 Yn y brofedigaeth gref,  
 Pwy a welai'n nesu ato,  
 Ond cenhadwr Ior y nef,  
 I'w gyfeirio at un adnod,  
 Roddai feddyginiaeth lawn,  
 Aberth Iesu ar Galfaria,  
 "Hwn osododd Duw yn Iawn."

Wedi gweled llewyrch gobaith,  
 Fe'i harweinid at ei draed,  
 Gwaeddai allan, "Ymddiriedaf  
 Am drugaredd, yn ei waed,"  
 Gwaed sy'n diffodd tân cydwybod,  
 Ac yn enyn sanctaidd sêl,  
 Melus ydyw'r gair "maddeuant"  
 Dwyfol, fel y diliau mel!

## DYGIAD CRISTIONOGAETH I BRYDAIN.

**E**R maint yw rhagorion dysgeidiaeth,  
 A helaeth wybodaeth y byd,  
 A gwerth yr ardderchog wyddorion,  
 A'u huchel gynghorion yn nghyd,  
 Er bod addysgiadau naturiol,  
 Yn foddion rhagorol i fyw,  
 Ni allant fyth arwain pechadur,  
 I ddirnad addoliad ei Dduw.

Gorweddai holl Brydain dan gaddug,  
 Tywyllwch yn nyfnder y nos,  
 Yn ngafael creulondeb coelgrefydd,  
 Heb neb a'i gwardai o'r loes,  
 Derwyddiaeth ar seiliau dych'mygol,  
 A gwan draddodiadau o'r gwir,  
 A'r ebyrth ar dân yr allorau,  
 Fu'n mygu fel aelwyd yn hir.

Ar uchel Gromlechau aberthid  
 O waed yr anifail, a'r caeth,  
 Dan urddas defodol y swyddau,  
 Mewn temlau yn gylchau, er gwaeth,  
 A thori'r uchelwydd mewn pryder,  
 Fel offrwm o wychder pur fawr,  
 Er lleddfu digllonedd y duwdod,  
 A chadw gelynyion i lawr.

Ond ar un o'r gwyliau arbenig,  
 Do'i torf o estroniaid yn nghyd,  
 Dan arfau i drechu'r addolwyr,  
 A d'rysu eu gwersi i gyd,

Trwy eithaf cyflafan ddiarbed,  
 Gan ymlid ac erlid pob un,  
 A bwrw y truain i'w llosgi,  
 Yn ffamau eu hebyrth eu hun.

Cymerid ein blaenor ardderchog,  
 Caradog a'i riaint o'u gwlad,  
 Yn rhwym hyd i garchar yn Rhufain,  
 Trwy ddirgel ddichellion a brad,  
 Ond yno cawn weled rhagluniaeth,  
 Yn symud yn esmwyth a'i llaw,  
 Bob olwyn yn mheiriant naturiaeth,  
 I ddwyn y prif drysor o draw.

Pwy yno a gawn yn ddamweiniol,  
 Yn do'd i gymdeithas â Bran,  
 Ond Paul yr apostol fel cenad,  
 Gan ffyddlon bregethu'n y fan,  
 Dyrchafai fanieri efengyl,  
 Cyhoeddai'r Gwarddwr yn rhydd,  
 Dychwelwyd y penaeth "BENDIGAID,"  
 A'i deulu ar unwaith i'r ffydd.

Pwy bellach na theimla lawenydd,  
 Wrth dremio ar doriad y wawr,  
 A phelydr Haul-y-cyfiawnder,  
 Ar Gymru'n tywynu yn awr,  
 A'r modd y mae'r Llywydd Goruchaf,  
 Yn trefnu cynddaredd y dyn,  
 I'w droi i'w folianu'n wirfoddol,  
 Yn llwybr ei gariad ei hun.

Y ddichell greulonaf a brofwyd,  
 Fel caddug yn cuddio ein gwlad,  
 Agorodd y ffordd i'r goleuni,  
 Disgleiriaf dywynu yn rhad,

A chodi y genedl i urddas,  
 Mor uchel a'r benaf drwy'r byd ;  
 Pa beth ond bendithion cristnogaeth,  
 A wnai y rhagoriaeth i gyd ?

Y CENHADON CYNTEFIG, A DIWEDDAR.

**M**AE'N hyfryd teithio'n awr, ar lwybrau'r am sergynt,  
 Er gwel'd y taeniad mawr, ar aden deneu'r gwynt,  
 Fu ar Ddatguddiad Ior y nef,  
 Gynhwysa ei fwriadau ef.

Nol enwi Bran ab Llyr, ar 'ben y ddalen lan,  
 Mae hithau Gwladus bur, yn mhenill cynta'r gan,'  
 Cynedda, Brychan, Lleurwg, rydd,  
 Eu haddurn ar y rhestr sydd.

Mae'n bleser rhoddi tro, hyd Ynys Wydryn werdd,  
 Siliura hyfryd fro, raid gofio yn y gerdd ;  
 Mon y Derwyddon ddaeth cyn hir,  
 Yn deml i gyhoeddi'r gwir.

O'r diwedd Tyndal fwyn, a Morgan gywir gawn,  
 Ac eraill er cyd ddwyn y Bibl inni'n llawn,  
 A thrwy y moddion nefol oll,  
 Y caed y Gair, bob gair, heb goll.

Dadleuai Charles yn daer, dros angen mawr ei wlad,  
 Wrth fonedd Llundain glaer, am Fibl cyflawn rhad,  
 Fe blawyd hedyn ar y pryd,  
 Ddoi'n bren a'i gangau dros y byd.

Yn entrych eang nen, y croga lamp fy Nuw,  
 Disgleiria yn ddilen ar lwybrau pob dyn byw,  
 Er arwain pawb trwy'r anial fyd,  
 Bob cam o'r ffordd i Ganaan glyd !



## Y BIBL GYMDEITHAS.

**M**AWR gwynai cenhedloedd y ddaear,  
 Mewn pryder cyn geni i'r byd,  
 Frenhines yr holl gymdeithasan,  
 Yn awr a'n bendithia i gyd;  
 Bu oesau ar oesau mewn llafur,  
 Yn llunio ei phalas a'i ffyrdd,  
 Cyn iddi ymddangos ei hunan,  
 Yr hyn a ddisgwyliai mil myrdd.

Celfyddyd a doniau llenoriaeth,  
 A roddwyd yn fore ar dasg,  
 Dyfeisient yr inc a'r llyth'renau,  
 Er agor geneuau y Wasg;  
 Rhoed ager a chledrau at deithio,  
 Yn gyflym ar for ac ar dir,  
 A'r cyfan i ddwyn eu gwasanaeth,  
 Er taenu rhagoriaeth y gwir.

Bu dyfroedd y bywyd tragwyddol,  
 Mewn ffynon gloedig yn hir,  
 A'r byd er ei syched andwyol,  
 Heb brofi melusder y gwir,  
 O'r diwedd, Cymdeithas y Biblau,  
 Anfonai y ffrydiau'i bob gwlad,  
 Wel bellach, pob enaid sychedig,  
 Cymered o'r dyfroedd yn rhad.

Bu cleddyf yr yspryd am dymor,  
 A'r bobl heb deimlo ei fin,  
 Ychydig, er profi ei rinwedd,  
 A chgafwyd yn gymwys i'w drin,

O'r diwedd do'i Salsbri a Morgan,  
 Y ddau i'w ddadweinio yn un,  
 Yn fuan cyfodai'r Gymdeithas,  
 I'w osod ar deimlad pob dyn.

Bu Matthew, Marc, Luc, gyda Ioan,  
 Fel pedwar carcharor dan glo,  
 Wrth gadwyn yn nghanell y Llannau,  
 Heb symud o'u hunfan am dro;  
 Ar fyrder fe gafwyd yr allwedd,  
 I'w agor, a'u gollwng yn rhydd,  
 I redeg, a chael y gogonedd,  
 Ac enill y genedl i'r ffydd.

Bu'r teulu dan fantell y caddug,  
 Yn nghymoedd pellenig y rhos,  
 A'r haulwen yn nghysgod y mynydd,  
 Heb chwalu tywyllwch y nos,  
 Yn awr, dacw'r lamp yn yr wybren,  
 Yn tanio llusernau 'r holl wlad,  
 A'r plant yn mhob bwthyn mewn pleser,  
 Yn darllen ewyllys eu Tad.

Bwriadai'r Creawdwr yn dirion,  
 I'r naill gynorthwyo y llall,  
 Cyfoethog i weini'r anghenus,  
 Yn helaeth o'i gywaeth, rhag gwall;  
 Bu Lloegr a Chymru am oesau,  
 Yn gweini i'w gilydd yn rhad,  
 Ac felly fel ffyddlon chwicrydd,  
 Wrth angen, y pery'r ddwy wlad.

Ni oddef yr achos arbediad,  
 Un llafur yn nygiad i ben,  
 Y bwriad addefir yn benaf,  
 Gynlluniwyd erioed dan y nen,

Tafodau o dân y dysgedig,  
 Fforchogent yn barod i'r gwaith,  
 Er dwyn y gwirionedd yn gyfan,  
 I'w beraidd udseinio'n mhob iaith!  
 Gwasanaeth y Gwefrol Hysbysai,  
 A elwir i'w gweini cyn hir,  
 Fel angel yn nghanol y nefoedd,  
 I daenu ar gyhoedd y gwir,  
 Pan seinir yn entyrch yr wybren,  
 Fod nifer teyrnasoedd y byd,  
 Pob gwlad, a phob iaith, ar y ddaear,  
 Yn eiddo Iachawdwr y byd!

---

### Y JUBILI.

WEL bellach gyfoethogion, dewch a'ch trysorau'n  
 mlaen,  
 Mae'n rhaid wrth eich cynorthwy, i rod-di'r Gair  
 ar daen,  
 Benthyciodd Ior rhagluniaeth, allweddau'r aur i  
 chwi,  
 Yn benaf i'w gysegru, ar ddydd y Jubili.  
 Adfywiodd olwyn masnach, i'r mynyd er eich  
 mwyn,  
 I'r dyben o'i gyflwyno, i'ch cynorthwyo'i ddwyn  
 Y trysor mawr anfeidrol, drwy eithaf hyd a lled,  
 Terfynau'r byd paganaidd, r'un modd a gwledydd  
 cred.  
 Chwi gyflym longau'r eigion, par'towch eich hwyliau  
 glan,  
 Er cludo Gair y bywyd dros foroedd maith yn  
 mlaen.

A chwithau yr awelon, a'r agerdd mawr ei nerth,  
Rhwyddhewch y ffordd i wasgar, newyddion mwya'u  
gwerth.

Ynsoedd pell ddisgwyliant am air y gyfraith wiw,  
Rhoent henffych well i'r bore, cant glywed geiriau  
Duw,

Ethiopia brysur estyn ei dwylaw tua'r nen,  
Am gyfraith y gwirionedd sy'n ie ac amen.

Yr anial o'i ddiwyllio yn ddolydd ffrwythlon drydd,  
A'r cwrlid glas a frithir gan ros a lili'r dydd,  
Try'r corsydd brwyn yn erddi, arloesir brynian  
lan,  
A'r gwegoedd fel telynau a'r awel chwery gan.

Y blaidd a'r oen gydborant yn dawel wrth y  
rhych,  
A'r mynod sionc a neidiant, ar gefn y llewpard  
brych,  
Y llo, y llew, a'r teigr, fel yr anifail bras,  
A thenyn gwellt i'r buarth arweinia'r llencyn  
gwas.

Yr asen wyllt yn llywaeth, dywysir i bob parth,  
A'r llydnod bach diniwaid, a lyfant fwng yr arth,  
Y plentyn sugno chwery wrth dwll yr asp, heb  
frys,  
A cholyn fforchog gwiber a bletha am ei fys.

Dylanwad Gair y bywyd, yn argyhoeddiad dyn,  
Yw'r gadwyn aur dragwyddol gylyma bawb yn un,  
Drwy holl hinsoddau natur, pob oedran, lliw a  
phryd,  
Yn Nghrist o waed a chalon, a geir yn un i gyd.

Heb enw i'w gydnabod, ond enw Iesu'ei hun,  
 Yr enw'n Antiochia, a wisgai'r saint yn un,  
 Pan gladdai'r Cyn-grist'nogion y dynol enwau'n  
 nghyd,  
 Yn enw gogoneddus Iachawdwr mawr y byd!

Wel dyma'r pur effeithiau, Cymdeithas Biblau'n  
 dyst,  
 Enillir trwy ledaeniad Efengyl "Duw yn Nghrist,"  
 Pryd hwn bydd moliant Iesu yn anthem dynolryw,  
 A'r byd yn gysegredig fel teml fawr i Dduw!

---

### CYD-DREMIAD A'R ANGEL YN LLYFR DATGUDDIAD.

**E**SGYNAIS i entrych y ne,  
 Filltiroedd, rifedi y dail,  
 Ar aden yr angel i le  
 Manteisiol ar uwchaf yr haul,  
 Mi droais fy ngolwg i lawr,  
 Wrth bwyntiad yr angel a'i law,  
 A'm llygaid mor dreiddiol a'r wawr,  
 Mi welwn y Ddaear o draw.

Deallwn droadau ei rhod,  
 Canfyddwn y pegwn heb ball,  
 Ei thiroedd a'i dyfroedd yn d'od,  
 I'r amlwg, y naill wedi'r llall,  
 Dangosai ei llwybr a'i fys,  
 A'i hwyneb i'r dwyrain yn troi,  
 Cip-olwg ar Brydain mewn brys,  
 Ar gyfer ei phellder yn ffoi.

Doi'r Werddon i'r golwg yn llawn  
 Pabyddion, yn llunio y groes,  
 Gan wrthod athrawiaeth yr Iawn,  
 A thalu i ddelwan eu moes ;  
 Cymerai'r *Atlantic* ei wib,  
 I ddangos America fawr,  
 Doi'r Unol-Daleithiau i'r grib,  
 A'u llwythi yn llenwi'r holl lawr.

Ar hyn, doi'r *Pacific* yn frith,  
 Gan gannoedd ynysoedd yn nes,  
 Tahiti'n disgleirio'n eu plith,  
 Wrth losgi'r eulunod di les ;  
 Do'i China boblogaidd dan bwys,  
 Ei deucant miliynau'n ei thro,  
 Yn gruddfan dan lenni tra dwys,  
 Hen goelion Confusius a Ffoe.

Gwastadedd Hindwstan ar hynt,  
 A'r Ganges yn golchi y glan,  
 Lle llosgid y gweddwon prudd gynt,  
 Yn ulw eu lludw'n mhob llan,  
 Mynyddau yr India ddoi'n mlaen,  
 Arabia a Phersia, gan ddwyn  
 Eu duwiau o bren ac o faen,  
 A wnaeth eu consuriaeth a'u swyn.

Cawn dreimiad ar dyrfa ddi ri,  
 Dan dwyll y gau brophwyd yn byw.  
 A'r Koran llygredig mewn bri,  
 Yn lle gwirioneddau fy Nuw ;  
 Mi syllwn yn graffach yn awr,  
 I wel'd Palestina i gyd,  
 A dilyn y llecyn o'r llawr,  
 Y ganwyd lachawdwr y byd.

Do'i mor y Canoldir yn glir,  
 A bro Asia leiaf i'r lan,  
 Ond cilient i'r cysgod cyn hir,  
 Ni safent am foment'r un fan ;  
 Ac Affrig yn nesaf a droes,  
 A'i myrddiwn pryderus gan son,  
 Am godi banerau y groes,  
 Ar dyrau Siera Leone.

Fel hyn y dychwelwn o daith,  
 Fy rhediad ar doriad y dydd,  
 I Ewrob i weled y gwaith,  
 Yn gywir orphenir mewn ffydd :  
 Daw'r dyddiau ar fyrder i ben,  
 Fyngwyd yn ngeiriau y ne,  
 Bydd Crewr y ddaear a'r nen,  
 A'i enw yn llanw pob lle.

Ni sai'r brophwydoliaeth yn ol,  
 A'i diwyd addewid hi ddaw,  
 A llawnder trysorau'n ei chol,  
 Mi gwelaf hi'n cychwyn o draw ;  
 Cenhadon bregetha'n mhob iaith,  
 Yn ail i dafodan o dan.  
 A'r belen a welais ar daith,  
 Bob rhandir oleuir yn lan !

